Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD MAWRTH 10 RHAGFYR 2024 10.00 o'r gloch** | | **TUESDAY 10 DECEMBER 2024 10.00 am** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes 01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/The Party of Wales**

Neville Evans, Carwyn E Jones, Dyfed Wyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

**Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group**

Dafydd Roberts, Dafydd Rhys Thomas

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

# R H A G L E N

**1** **YMDDIHEURIADAU**

**2** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**3** **MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**4** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

**5** **CYNLLUN STRATEGOL CAFFAEL A RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACTAU** (Tudalennau 11 - 60)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**6** **RHENTI A THALIADAU GWASANAETHAU TAI 2025/26** (Tudalennau 61 - 78)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 10 Rhagfyr 2024 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Gary Pritchard |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad: | Dyfan Sion, Pennaeth Democratiaeth |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Ionawr – Awst 2025;**

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| Ch – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy’. |

| D – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

| Dd – Asesu’r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Ddim yn berthnasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai’r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | |



Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Tîm Arweinyddiaeth. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Ddim yn berthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Ionawr – Awst 2025 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

# Cyngor Sir Ynys Môn

## Cyfnod: Ionawr – Awst 2025

Mae'r flaen raglen waith hon yn rhestru'r holl benderfyniadau y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud a pha fusnes y bydd y pwyllgorau sgriwtini yn ei ystyried ynghyd â phryd y bydd y materion hynny'n cael eu trafod. Mae hefyd yn rhestru unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud mewn perthynas â phenderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud gan y Cyngor llawn.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig.

Mae'r flaen raglen waith yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol. Nid yw'r ffaith nad yw penderfyniad wedi'i gynnwys yn y flaen raglen waith yn atal materion brys neu rai na ragwelwyd rhag cael eu hystyried.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Diweddarwyd ddiwethaf ar 27 Tachwedd 2024

## Ionawr 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 21 Ionawr 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Cyllideb Refeniw 2025/26 – cynigion cychwynnol | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – 9 Ionawr 2025<br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – 15 Ionawr 2025 |
| | Ffioedd cartrefi gofal y sector annibynnol 2025/26 | Cyng Alun Roberts | |
| | Gwasanaethau gofal cymdeithasol di-breswyl yn y gymuned – ffioedd a thaliadau 2025/26 | Cyng Alun Roberts | |

Tudalen 5

## Chwefror 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 18 Chwefror 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 3, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – 12 Chwefror 2025 |
| | Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 3, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – 12 Chwefror 2025 |

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| | Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 3, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – 12 Chwefror 2025 |
| | Adolygiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2024/25 | Cyng Robin Williams | |
| | Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2025/26 | Cyng Robin Williams | |
| | Ffioedd a Thaliadau 2025/26 | Cyng Robin Williams | |
| | Cartrefi'r awdurdod lleol i bobl hŷn – pennu ffi safonol 2025/26 | Cyng Alun Roberts | |
| | Polisi Iaith Gymraeg | Cyng Dafydd Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio – 12 Chwefror 2025<br>Cyngor Llawn – 6 Mawrth 2025 |
| Cyfarfod 27 Chwefror 2025 | Strategaeth Gyfalaf | Cyng Robin Williams | Cyngor Llawn - 6 Mawrth 2025 |
| | Cyllideb Gyfalaf 2025/26 | Cyng Robin Williams | Cyngor Llawn - 6 Mawrth 2025 |
| | Cyllideb Refeniw 2025/26 – cynigion terfynol | Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – 19 Chwefror 2025<br>Cyngor Llawn - 6 Mawrth 2025 |
| Penderfyniad dirprwyiedig – Chwefror 2025 | Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Bioamrywiaeth | Cyng Nicola Roberts | |

## Mawrth 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 25 Mawrth 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 3, 2024/25 | Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol - 11 Mawrth 2025 |
| | Cynllun Ynni Ardal Lleol | Cyng Nicola Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio – 12 Mawrth 2025 |
| | Cynllun Strategol Rheoli Risg Llifogydd Lleol | Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol - 11 Mawrth 2025 |
| | Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2023/24 | Cyng Dafydd Roberts<br>Cyng Robin Williams | |
| Penderfyniad dirprwyiedig – Mawrth 2025 | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2023/24 | Cyng Alun Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio – 12 Mawrth 2025 |



## Ebrill 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 29 Ebrill 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |

## Mai 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod mis Mai 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |

## Mehefin 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod mis Mehefin 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 4, 2024/25 | Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol - |
| | Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 4, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid - |
| | Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 4, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid - |
| | Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 4, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid - |
| Penderfyniad dirprwyiedig – Mehefin 2025 | Adroddiad blynyddol Safonau'r Gymraeg 2024/25 | Cyng Dafydd Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio – |

## Gorffennaf 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod mis Gorffennaf 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **10 RHAGFYR 2024** |
| **Pwnc:** | **CYNLLUN STRATEGOL CAFFAEL A RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACT** |
| **Deilyddion Portffolio:** | **ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO - CYLLID** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>Ffôn:<br>E-bost: | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151**<br>**01248 762601**<br>**rmjfi@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **d/b** |

**A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:**

Yn dilyn penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd, mae Llywodraeth y DU wedi manteisio ar y cyfle i adolygu deddfwriaeth yn gysylltiedig â chaffael yn y sector cyhoeddus. Bydd Deddf Caffael 2023 yn dod i rym ar 24 Chwefror 2025, ac mae hyn yn hwyrach na'r dyddiad arfaethedig gwreiddiol, sef 28 Hydref 2024. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi pasio Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, sy'n gosod cyfrifoldebau a dyletswyddau ychwanegol ar sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru mewn perthynas â chaffael.

Mewn ymateb i newid yn y ddeddfwriaeth, comisiynodd y Cyngor gwmni allanol i adolygu parodrwydd y Cyngor ar gyfer y newid mewn deddfwriaeth a darparu cynllun gweithredu i'r Cyngor er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn gallu cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Roedd y cynllun gweithredu'n rhoi sylw i nifer o feysydd, gan gynnwys:- y strategaeth gyffredinol, llywodraethiant, rolau a chyfrifoldebau, hyfforddiant, data a systemau gwybodaeth a chyfathrebu.

Yn dilyn hynny, mae'r Cyngor wedi contractio'r cwmni allanol i gynorthwyo'r Cyngor i wireddu'r cynllun gweithredu. Bydd rhan sylweddol ô'r cynllun gweithredu yn cael ei wireddu cyn i'r ddeddfwriaeth newydd ddod i rym, ac mae gwaith pellach wedi'i gynllunio hyd at fis Mawrth 2026, pan ddaw'r contract cefnogi i ben.

Mae dwy elfen o'r cynllun gweithredu y mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith eu cymeradwyo, yn ymwneud â'r Cynllun Strategol Caffael a Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor.

**Cyllun Strategol Caffael**

Mae'r Cynllun Strategol Caffael newydd wedi'i gosod ar dempled safonol y Cyngor ac mae'n ymwneud â'r cyfnod hyd at fis Mawrth 2029. Mae caffael yn agwedd bwysig o sut mae'r Cyngor yn ymgymryd â'i fusnes ac mae'n hanfodol i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni'r amcanion strategol a nodir yng Nghynllun y Cyngor. Mae'n sicrhau hefyd bod y Cyngor yn cael gwerth am arian, bod caffael yn cael ei gyflawni mewn modd cynaliadwy a'i fod yn sicrhau'r buddion mwyaf i'r economi leol a chymunedau lleol, a bod y dull caffael yn cydymffurfio â'r holl ymrwymiadau cyfreithiol a nodir yn y ddeddfwriaeth Caffael newydd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
Mae'r Cynllun Strategol yn nodi sut fydd y Cyngor yn:-

- gosod esiampl ac arwain ar ymgymryd â chaffael mewn ffordd reoledig, fasnachol a chynaliadwy;
- defnyddio gwybodaeth fasnachol i lywio'r dull o ymgymryd â chaffael, gyda'r nod o leihau costau, lleihau risgiau a gwneud y mwyaf o fuddion i'r economi leol;
- rhoi sylw i werth cymdeithasol, lleihau effeithiau amgylcheddol a lleihau allyriadau carbon;
- gyrru cydymffurfiaeth â'r deddfwriaeth;
- rheoli perfformiad contractwyr i sicrhau gwerth am arian a lleihau risgiau.

Bydd perfformiad y Cyngor wrth roi'r Cynllun Strategol Caffael ar waith yn effeithiol yn cael ei fonitro trwy adrodd yn rheolaidd i Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor a'r Pwyllgor Gwaith, a thrwy adroddiad blynyddol ar Gaffael a gyflwynir i'r Llywodraeth a'r Pwyllgor Archwilio.

**Rheolau Gweithdrefn Contract**

Mae ail ran yr adroddiad hwn yn ymwneud â newid Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor (CPRs). Mae'r CPRs yn nodi'r broses i'w dilyn wrth gynnal ymarfer caffael ac mae'n nodi'r gwahanol ddulliau caffael a phryd y dylid eu defnyddio. Mae newid yn y ddeddfwriaeth gaffael yn golygu bod rhaid i'r Cyngor ddiweddaru'r CPR ac mae'n gyfle i sicrhau bod y CPRs yn ddigon hyblyg i ganiatáu i swyddogion gynnal ymarfer caffael yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol, wrth barhau i sicrhau fod unrhyw ymarfer caffael yn cael ei reoli a sicrhau gwerth am arian i'r Cyngor.

Drafftiwyd y CPRs gan y cwmni sy'n darparu cefnogaeth gaffael allanol i'r Cyngor, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a Thîm Caffael y Cyngor. Mae Llawlyfr Caffael manwl yn cael ei baratoi i gefnogi'r CPRs.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro adroddiad i'r Cyngor ynglŷn â thynnu'r CPRs o Gyfansoddiad y Cyngor a dirprwyo'r hawl i gymeradwyo'r CPRs i'r Pwyllgor Gwaith. Cymeradwyodd y Cyngor y newid yn ei gyfarfod ar 26 Medi 2024.

Mae'r CPRs ynghlwm fel Atodiad B, ac mae crynodeb o'r newidiadau a wnaethpwyd, o gymharu â'r CPRs presennol, ynghlwm fel Atodiad C.

**Argymhellion**

Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn:-

**1.** Cymeradwyo Cynllun Strategol Caffael y Cyngor, a ddaw yn weithredol ar y dyddiad y daw'r ddeddfwriaeth newydd i rym (ynghlwm fel Atodiad A).

**2.** Cymeradwyo'r Rheolau Gweithdrefn Contract diwygiedig, a ddaw yn weithredol ar y dyddiad y daw'r ddeddfwriaeth newydd i rym (ynghlwm fel Atodiad B).

**3.** Dirprwyo unrhyw benderfyniadau pellach, y mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith eu cymeradwyo mewn perthynas â gweithredu'r Cynllun Gweithredu Caffael, i'r Deilydd Portffolio - Cyllid. Bydd yr holl benderfyniadau'n cael eu cyhoeddi yn y ffordd arferol.

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Mae'r ddeddfwriaeth Gaffael newydd yn golygu y bu'n rhaid i'r Cyngor adolygu ei strategaeth a'i brosesau caffael er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Yr unig ddewis arall oedd gwneud dim; fodd bynnag, ystyriwyd y byddai hynny'n risg sylweddol i'r Cyngor ac y byddai'r Cyngor yn agored i her gyfreithiol am fethu â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd. Byddai'r Cyngor hefyd yn debygol o gael ei feirniadu gan reoleiddwyr ac archwilwyr pe byddai'n gwneud dim.

## C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae cymeradwyo strategaethau'r Cyngor yn swyddogaeth a ddirprwywyd i'r Pwyllgor Gwaith gan y Cyngor. Yn dilyn penderfyniad y Cyngor ynglŷn â'r Rheolau Gweithdrefn Contract ar 26 Medi 2024, mae'r hawl i gymeradwyo'r rheolau, ac unrhyw newidiadau wedi hynny, wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

## CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
|---|---|---|
| Nid yw'r penderfyniad yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y gyllideb. | | |
| **Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):** | | |
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Nod y Cynllun Strategol Caffael yw gwneud y gorau o fuddion economaidd a chymdeithasol i Ynys Môn. |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Mae gweithredu'r Cynllun Strategol a'r CPRs wedi'i ddylunio i sicrhau gwerth am arian ac osgoi costau dianghenraid ac unrhyw gostau sy'n codi yn sgil heriau cyfreithiol posib i benderfyniadau a wnaed gan y Cyngor wrth gaffael gwaith, nwyddau a gwasanaethau. |
| **3** | A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Mae'r cwmni sy'n darparu cefnogaeth gaffael allanol i'r Cyngor yn gwneud gwaith tebyg i nifer o awdurdodau yng Ngogledd Lloegr. Mae eu cyngor a'u cefnogaeth wedi bod yn allweddol wrth baratoi'r Cynllun Strategol a'r Rheolau Gweithdrefn Contract diwygiedig. |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Amherthnasol |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Nod y Cynllun Strategol Caffael yw gwneud y gorau o'r buddion economaidd i Ynys Môn, trwy wario cymaint â phosib o arian yn lleol, fel y caniateir gan y Rheoliadau. Dylai hyn wella'r economi leol a dylai fod o fudd i'r rheiny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Bydd manylebau'r holl gytundebau'n nodi'r gofynion o ran y Gymraeg a byddant yn sicrhau fod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal. |
| **E -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | Mae'r TA wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 17 Medi 2024. Mae unrhyw sylwadau a wnaed gan y Prif Weithredwr wedi cael eu hymgorffori yn yr adroddiad. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Awdur yr adroddiad. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Ymgynghorwyd â'r Swyddog Monitro mewn perthynas â drafftio'r CPRs. Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r TA a bydd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw sylwadau eraill a wnaed. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Ymgynghorwyd ag AD mewn perthynas â rhoi cynllun hyfforddi ar waith yn gysylltiedig â'r strategaeth a'r CPRs. |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | Amherthnasol |
| **7** | **Sgriwtini** | Trafodwyd yn Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 19eg Tachwedd 2024. |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Mae'r adroddiad hwn yn berthnasol i'r holl Aelodau. |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Amherthnasol |

**F – Atodiadau:**

Atodiad A – Cynllun Strategol Caffael 2024 – 2029
Atodiad B – Rheolau Gweithdrefn Contract Diwygiedig
Atodiad C – Crynodeb o Newidiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Contract

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**


Ynys Môn
The Isle of Anglesey

# Cynllun Caffael Strategol 2024 - 2029

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.llyw.cymru

# Rhagair



Tudalen 15

Marc Jones - Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) – Swyddog Adran 151



Cyng Robin Williams - Deilydd Portffolio Cyllid

Croeso i'n cynllun caffael strategol ar gyfer 2024 - 2029. Mae'r cyhoeddiad allweddol hwn yn cefnogi'r gwaith o ddarparu Cynllun y Cyngor a gosod ein hamcanion i wella caffael a chefnogi'r broses o greu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.

Mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol ar hyn o bryd; mae'r galw am ein gwasanaethau yn parhau i gynyddu ac mae'r gost i'w darparu hefyd yn cynyddu. Nid yw hyn yn golygu ein bod yn llai parod i fod yn ymroddgar, ac mae caffael effeithiol yn hollbwysig.

Byddwn yn defnyddio ein trefniadau masnachol i gefnogi busnesau lleol cymaint â phosibl. Byddwn yn adnabod elfennau effeithiolrwydd ac yn gyrru arloesedd yn ei flaen, tra'n sicrhau bod gwasanaethau yn effeithiol o ran cost, a bod y cyfleoedd rydym yn eu cynnig i fusnesau a dinasyddion ar yr Ynys o'r gwerth a'r budd gorau.

Mae gennym enw da o gefnogi busnesau lleol, gyda chyfartaledd o 25% o gontractau yn cael eu dyfarnu i gyflenwyr ar yr Ynys. Byddwn yn parhau i gynnal a gwella hyn.

Mae'r cynllun caffael strategol yn adeiladu ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Deddf Caffael 2023, Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 a Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024. Ei fwriad yw cefnogi ein cymunedau, sicrhau bod arian yn cael ei wario yn gydsyniol a sicrhau gwerth am arian.

# Pam bod angen cynllun caffael strategol arnom?

**£10.9bn***

Y flwyddyn
Cyfanswm Cyllideb
Refeniw Llywodraeth Leol
2024/25



**£221.2m***

Cyllideb Gwariant
Refeniw Ynys Môn
2024/25

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall penderfyniadau mewn perthynas â chaffael achosi goblygiadau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol sylweddol, yn lleol ac yn fyd-eang, heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r gweithgarwch caffael cysylltiedig yn hanfodol er mwyn sicrhau'r gwerth gorau a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn ffordd sy'n diogelu pobl a'r amgylchedd, ac mae'n hollbwysig ar gyfer:-

- Cydymffurfio er mwyn rheoli risgiau;
- Darparu amcanion strategol Cynllun y Cyngor;
- Arddangos gwerthoedd craidd y Cyngor;
- Datblygiadau cynaliadwy pellach;
- Ysgogi arloesedd;
- Osgoi unrhyw gostau diangen.

Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod ei gyfrifoldeb i gymryd agwedd rymus tuag at faterion moesegol a chynaliadwyedd, yn enwedig mewn perthynas â chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl, ac rydym wedi ymrwymo'n llawn i atal hyn o fewn ein cadwyni cyflenwi.

Nid canllaw gweithredol ar gyfer caffael yw'r cynllun strategol; fodd bynnag, dylid rhoi'r amcanion ar waith yn ein holl weithgarwch caffael.

*Data gan Ystadegau Cymru: Cyllideb refeniw awdurdodau lleol a rhagolygon gwariant cyfalaf: Ebrill 2024 i Fawrth 2025

# Cynllun y Cyngor 2023-2028 Amcanion Strategol

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n ganolbwynt i'r penderfyniadau a wneir ar bob lefel; darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; siapio gwariant blynyddol; monitro perfformiad a chynnydd.

Wrth wraidd y cynllun mae ein dyhead i weithio gyda phreswylwyr, cymunedau a phartneriaid ar Ynys Môn i sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl, gwella ansawdd bywyd ar gyfer pawb a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r prif feysydd y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnynt:-

**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:-**

Tudalen 18

'Creu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.'

### Yr iaith Gymraeg

Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.

### Gofal Cymdeithasol a Lles

Darparu'r gefnogaeth gywir ar yr amser iawn.

### Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Tai

Sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref.

### Economi

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.

### Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 (llyw.cymru)

# Cynllun y Cyngor 2023-2028 - Gwerthoedd

Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn cael ei gefnogi gan werthoedd craidd y sefydliad, sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain y weledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.

## Parch

Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill er gwaethaf ein gwahaniaethau.

## Cydweithio

Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid, i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl Ynys Môn.

## Gonestrwydd

Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.

## Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys

Rydym yn creu ymdeimlad o falchder mewn gweithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o'r Cyngor a'r Ynys.



Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 (llyw.cymru)


# Diben y Cynllun Caffael Strategol

Diben y Cynllun Caffael Strategol yw sicrhau bod prosesau'r Cyngor, o ran comisiynu a chaffael ei wasanaethau, ei gyflenwyr, a'i waith, yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth, polisïau a phrosesau mewnol, ei fod yn foesegol, yn agored a theg, yn onest, ac yn ystyried ffactorau economaidd, cymdeithasol, llafur ac amgylcheddol yn y prosesau hynny.

Bydd yn darparu trywydd strategol drwy:-

- Ymgysylltu'n rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn deall meysydd o arfer da;
- Gwella ansawdd ac effeithiolrwydd costau darparu gwasanaethau cyhoeddus i ddinasyddion;
- Bod yn fecanwaith i herio trefniadau presennol gwasanaethau a dod o hyd i fodelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau;
- Sicrhau bod contractau a gwariant yn cydymffurfio;
- Gwneud rhagor o arbedion y gellir eu rhoi yn ôl i mewn i wasanaethau blaenoriaeth;
- Cyflawni gwerth cymdeithasol ychwanegol a gwerth ychwanegol ehangach i ddinasyddion drwy ddefnyddio cadwyni cyflenwi'n effeithiol;
- Datblygu ein hamcanion i gefnogi cyflenwyr lleol a chadw'r bunt Gymreig yng Nghymru;
- Sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â:-
  - Deddf Caffael 2023 ac is-ddeddfwriaeth;
  - Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023;
  - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
  - Datganiad Polisi Caffael Cymru.
- Datblygu ein gweithgareddau ynghylch ymddygiad moesegol a chynaliadwy, yn enwedig mewn perthynas â chaethwasiaeth fodern a diogelu'r amgylchedd;
- Atgyfnerthu ein hymrwymiad i ystyried goblygiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr hyn sy'n cael ei gaffael ym mhob cyfnod o'r cylch bywyd;
- Sicrhau bod y Cyngor yn darparu'r gwerth gorau.

# Data Sylfaen– Gwariant 2023/24




Tudalen 21

**68% yng Nghymru**

**101 o gontractau**

**Y 6 prif gontract:-**


1. Cynnal a Chadw Priffyrdd
2. Nwy a Thrydan
3. Casglu Gwastraff
4. Cynnal a Chadw Palmentydd
5. Adeiladu – Unedau Busnes
6. Arlwyaeth mewn Ysgolion

# Cylch Strategol

Mae'r cylch strategol yn adnabod y cynlluniau sydd ar waith i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau a'n hamcanion.

Mae'r cynllun hwn yn gynllun strategol allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion a'r weledigaeth strategol.





# Cyd-destun strategol

Mae cyfoeth o strategaethau a deddfwriaeth Rhyngwladol, gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sy'n dylanwadu ar weithgarwch caffael cyhoeddus.

## Rhyngwladol

- Cytundeb Caffael Llywodraethau, Sefydliad Masnach y Byd
- Cytundeb Masnach a Chydweithrediad UE – DU (a chytundebau masnach eraill)
- Cytundebau Cydnabyddiaeth Gilyddol
- Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig

## Llywodraeth y DU

- Deddfwriaeth Gaffael
- Deddf Caethwasiaeth Fodern

## Llywodraeth Cymru

- Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Nodiadau Polisi Caffael Cyhoeddus Cymru
- Datganiad Polisi Caffael Cymru
- Fframwaith Mesur Gwerth Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru

## Llywodraeth Leol

- Cynllun y Cyngor 2023 - 2028
- Rheolau Gweithdrefn Contract
- Cynllun Caffael Strategol
- Polisi Gwerth Cymdeithasol / Buddion Cymunedol
- Cynllun tuag at Sero Net 2022 i 2025
- Polisïau a Chynlluniau Strategol eraill y Cyngor

# Meysydd Blaenoriaeth Allweddol

Tudalen 24

‘Creu Ynys Môn sy’n iach a llewyrchus lle gal pobl ffynnu.’

1. Arweinyddiaeth a diwylliant
2. Data ac yn wybodus yn fasnachol
3. Gwerth cymdeithasol a’r amgylchedd
4. Gyrru cydymffurfiaeth
5. Economi leol

# Blaenoriaeth allweddol: Arweinyddiaeth a diwylliant

## Pam bod hyn yn bwysig?

Gall caffael da gael effaith pendant ar ganlyniad prosesau caffael, darpariaeth gwasanaeth a datblygiadau ehangach.

Mae diwylliant a gallu'r Cyngor, mewn perthynas â chaffael da yn hanfodol o ran darparu'r Cynllun Caffael Strategol ac amcanion strategol y Cyngor.

Mae cysylltiadau effeithiol ac ymgysylltu'n effeithiol gyda chydranddeiliaid yn bwysig o ran darparu amrywiaeth o fuddion, gan gynnwys canlyniadau gwell ar gyfer y cyhoedd, gwerth cymdeithasol ychwanegol, llai o gostau, llai o risiau ac arloesedd.



## Beth fyddwn yn ei wneud?

- Bod yn esiampl dda a sicrhau ein bod yn hyrwyddo'r prosesau caffael strategol gorau posibl.
- Sicrhau bod Cynghorwyr, uwch arweinyddion a phartneriaid yn ymrwymedig ac yn hyrwyddo caffael a chydweithio.
- Hyrwyddo gwerth cymdeithasol, ymddygiad cynaliadwy a moesegol ym mhopeth rydym yn ei wneud.
- Ymgysylltu gyda chyflenwyr strategol a gwneud mwy o ymgysylltu cyn y farchnad.
- Darparu caffael cynnar a chyngor masnachol er mwyn cael canlyniadau gwell o brosiectau.
- Gweithio fel "un tîm i'r Cyngor".

## Sut fyddwn yn gwneud hyn?

- Defnyddio ein sgiliau ac arbenigedd i ddatblygu ein gwerth ychwanegol.
- Gwella'r gwaith o adrodd er mwyn galluogi pawb i gyflawni eu rolau'n effeithiol.
- Gwella'r gwaith o gasglu data.
- Rhannu data'n ymwneud â pherfformiad, gwerth cymdeithasol a risg.
- Cymryd rhan mewn grwpiau strategol rhanbarthol neu genedlaethol.
- Sicrhau eglurdeb o fewn rolau a chyfrifoldebau.
- Rhannu ein llwyddiannau a'r gwersi a ddysgwyd yn fewnol a gydag eraill.

# Blaenoriaeth allweddol: Data ac yn wybodus yn fasnachol

## Pam bod hyn yn bwysig?

Mewn cyfnod lle mae cyllid yn lleihau, costau'n cynyddu yn ogystal â galw, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried ffyrdd eraill o ymdopi â diffyg ariannol a bodloni gofynion.

Gall gwella perfformiad contractwyr a lleihau methiant masnachol ddiogelu enw da a helpu i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol i gymunedau lleol.

Gall risgiau, yn enwedig risgiau y mae modd eu rhagweld, gael effaith ddinistriol ar enw da a bywydau preswylwyr, ansawdd gwasanaethau a ddarperir a hyfywedd ariannol.

## Beth fyddwn yn ei wneud?

- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu prosesau a dulliau newydd, a chaniatáu gwaith tendro i ganolbwyntio ar arloesedd a chyfleoedd.
- Ystyried mwy o ffynonellau sy'n seiliedig ar risg.
- Cydweithio ar draws y rhanbarth.
- Sicrhau bod cyflenwyr yn gwella eu prosesau adrodd a darparu eu ymrwymiadau gwerth cymdeithasol.
- Rheoli risgiau drwy gynllunio ymlaen llawn yn briodol, gwneud ymchwil i'r farchnad, ymgysylltu prydlon a pharatoi cynlluniau wrth gefn.
- Adnabod contractau / cyflenwyr a phwysigrwydd strategol a gwendidau yn y gadwyn gyflenwi.
- Systemau, gweithdrefnau a staff yn darparu canlyniadau o ansawdd yn gyson.

## Sut fyddwn yn gwneud hyn?

- Darparu hyfforddiant mewn perthynas â:-
  - rheoli contract;
  - rheoli cysylltiadau gyda chyflenwyr;
  - prosesau a dulliau Caffael.
- Adolygu a diweddaru Rheolau Gweithdrefnau Contract.
- Cyflwyno canllawiau a phrosesau clir yn y Llawlyfr Caffael.
- Mae rheoli adolygiadau contract a chysylltiadau gyda chyflenwyr yn fwy cyffredin ac yn cael eu hystyried yn hollbwysig ar gyfer creu cyfleoedd newydd.
- Sicrhau bod gweithgareddau tendro yn canolbwyntio ar arloesedd a chyfleoedd.
- Dadansoddi ac adnabod gwariant ac adrodd ar arbedion.

# Blaenoriaeth allweddol: Gwerth cymdeithasol a'r amgylchedd

## Pam bod hyn yn bwysig?

Mae ein cymunedau, a'r ffordd maent yn ffynnu, yn hollbwysig ar gyfer llwyddiant yr Ynys fel lle i fyw, i weithio a'i fwynhau.

Mae caffael, drwy greu gwerth cymdeithasol, yn cynnig nifer o gyfleoedd i wella llesiant economaidd a chymdeithasol o gontractau cyhoeddus sydd yn mynd y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol, heb unrhyw gost ychwanegol.

Drwy ystyried effaith amgylcheddol ein gwaith caffael, gallwn leihau unrhyw effeithiau negyddol a chreu canlyniadau cadarnhaol. Mae hyn yn cynnwys lleihau allyriadau ac ôl-troed carbon a chefnogi bioamrywiaeth / adferiad natur.

## Beth fyddwn yn ei wneud?

- Ystyried gwerth cymdeithasol ac ystyriaethau amgylcheddol yn yr holl weithgarwch caffael (lle bo'n berthnasol a phriodol).
- Gofyn i gyflenwyr weithio gyda'r Cyngor i gyflawni ei dargedau newid hinsawdd a bioamrywiaeth.
- Sicrhau bod cyflenwyr yn darparu canlyniadau ariannol a rhai nad ydynt yn ariannol.
- Sicrhau bod ein blaenoriaethau amgylcheddol a gwerth cymdeithasol yn ganolog drwy weithio gyda chydranddeiliaid i ymgysylltu gyda chyflenwyr drwy ddigwyddiadau, sesiynau galw heibio, digwyddiadau cwrdd â'r prynwr, hyfforddiant a gweithdai.
- Dylanwadu ar gyflenwyr i gydnabod a chymryd camau i hyrwyddo'r Gymraeg, yn unol â'n nodau strategol.

## Sut fyddwn yn gwneud hyn?

- Dilyn agwedd ragweithiol yn seiliedig ar le tuag at werth cymdeithasol ac ystyried nodau newid hinsawdd a bioamrywiaeth yn yr holl waith caffael.
- Gwneud defnydd helaeth o gyfarpar gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol i gefnogi caffael.
- Adolygu a diweddaru Rheolau Gweithdrefnau Contract.
- Lle bo'n berthnasol, sicrhau bod gwerth cymdeithasol yn ddangosydd perfformiad allweddol mewn contractau yn ogystal â'r contractau a reolir.
- Diweddaru ein gwefan gyda chanllawiau priodol a chyfeiriadau at gymorth.
- Gofyn i bob cyflenwr gofrestru ar gyfer y Disgwyliadau yn Atodiad B.
- Darparu hyfforddiant mewnol ac allanol lle bo'n briodol er mwyn sicrhau bod gofynion gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol yn ganolog i bopeth.

# Blaenoriaeth allweddol: Gyrru Cydymffurfiaeth

### Pam bod hyn yn bwysig?

Gall caffael gwael a pherfformiad gwael gan gontractwr effeithio'n ddifrifol ar new da a'r gallu i ddarparu gwasanaethau effeithiol a chefnogaeth i gymunedau lleol.

Tudalen 28

Gall gwariant oddi ar y contract gael effaith difrifol ar gyflawni gwerth am arian, mae'n tanseilio cysylltiadau gyda chyflenwyr a'n lleihau mesurau rheoli costau. Yn ogystal, mae'n peri'r risg o fethu â chydymffurfio gyda deddfwriaeth, darparu amcanion strategol ac, felly, mae'n herio dyfarniadau contract.

### Beth fyddwn yn ei wneud?

- Sicrhau symlrwydd a phrydlondeb i'r farched.
- Sicrhau bod cyflenwyr yn cydymffurfio gyda manylebau.
- Dadansoddi data'n rymus er mwyn gallu rheoli, cynllunio, monitro ac adrodd ar ein gweithgarwch.
- Defnyddio data i lywio ein hagwedd at gaffael strategol a chydweithio.
- Diffinio rolau a chyfrifoldebau'n glir.
- Darparu cyfarwyddyd clir.

### Sut fyddwn yn gwneud hyn?

- Sicrhau bod y gofrestr contractau wedi'i chwblhau ac yn gywir, a'i bod yn cael ei defnyddio i gefnogi'r gwaith o gynllunio ymlaen llaw a gwariant oddi ar y contract.
- Creu polisïau clir, Rheolau Gweithdrefnau Contract effeithiol a darparu Llawlyfr Caffael.
- Gwiriadau dadansoddi a chydymffurfio rheolaidd, ac adrodd canlyniadau i uwch reolwyr.
- Darparu hyfforddiant i staff ar y cylch bywyd caffael a chomisiynu a chyflwyno canllawiau.
- Mesur perfformiad yn gyson ar draws y Cyngor.

# Blaenoriaeth allweddol: yr Economi Leol

### Pam bod hyn yn bwysig?

Drwy gontractio â chyflenwyr lleol, gallwn helpu i ysgogi'r economi leol. Mae hyn yn cadw arian yn cylchredeg o fewn y gymuned,  gan gefnogi'n lleol a chreu swyddi.

Gall cyrchu nwyddau a gwasanaethau'n lleol leihau'r ôl-troed carbon sy'n gysylltiedig â chludiant. Mae hyn yn cefnogi amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol.



Mae cyflenwyr lleol yn aml yn fwy hyblyg ac ymatebol i anghenion penodol y gymuned. Gall hyn arwain at well darpariaeth gwasanaeth a mwy o wytnwch.

### Beth fyddwn yn ei wneud?

- Cyn bellech â bod y Cyngor yn gallu adnabod nifer digonol o gyflenwyr lleol sydd â'r capasiti a'r profiad angenrheidiol i gwrdd â'i ofynion, bydd y Cyngor yn mabwysiadu dull rhanbarthol o gyrchu contractau islaw'r trothwy.
- Pan fodlonir amodau, cadw contractau ar gyfer busnesau â phwrpas cymdeithasol.
- Symleiddio prosesau a dogfennaeth caffael i annog mwy o fentrau bach a chanolig (SMEs) i wneud cais am gontractau.

### Sut fyddwn yn gwneud hyn?

- Ymgysylltu â busnesau lleol trwy ddigwyddiadau ac arddangosfeydd 'cwrdd â'r prynwr'.
- Darparu adborth adeiladol i gynigwyr aflwyddiannus i'w helpu i wella bidiau yn y dyfodol.
- Cynnig adnoddau i helpu busnesau lleol i ddeall proses gaffael y Cyngor.
- Defnyddio Cyfeirlyfrau Cyflenwyr Lleol: Gall creu a chynnal cyfeiriaduron o gyflenwyr lleol a mentrau cymdeithasol helpu awdurdodau i ddod o hyd i fusnesau lleol ac ymgysylltu â nhw yn hawdd.
- Nodi rhwystrau i'r broses gaffael ar gyfer SMEs a'r sectorau gwirfoddol a mentrau chymdeithasol.

# Llywodraethu: monitro a gwerthuso

Mae'r cynllun hwn yn creu gweledigaeth newydd ar gyfer caffael o fewn y Cyngor, a mesurau newydd ar gyfer monitro perfformiad:-

- Gwariant Lleol;
- Gwariant SME;
- Pwysoli a Chynhwysiad Gwerth Cymdeithasol;
- Y Gwerth Cymdeithasol wedi'i addo;
- Y Gwerth Cymdeithasol a Ddarparwyd;
- Gwariant oddi fewn ac oddi ar y contract;
- Disgwyliadau / Hepgoriad o Gystadleuaeth;
- Cynlluniau Lleihau Carbon Cyflenwyr.




Er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei wireddu, byddwn yn sefydlu trefniadau grymus yn canolbwyntio ar y cynllun gweithredu cyfredol ar gyfer y 2 flynedd nesaf, a chynlluniau gweithredu blynyddol yn dilyn hynny.

Byddwn yn adrodd ar gynnydd yn gyson i'r Tîm Arweinyddiaeth, ac i'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y flynyddol neu ar gais.

Bydd ein trefniadau'n sicrhau eglurder, atebolrwydd, cydlyniad a strwythur i fonitro cynnydd yn effeithiol.

# Atodiad A: Cylch Caffael a Chomisiynu




Tudalen 31

# Atodiad B1: Disgwyliadau ar Gyflenwyr (Craidd)

Mae'r Cyngor yn disgwyl y canlynol gan ei holl gyflenwyr (a'u hisgontractwyr):-

- Peidio â chymryd rhan mewn gweithgarwch nag ymddygiad troseddol;
- Cydymffurfio gyda chyfraith llafur ac amgylcheddol, a pheidio ag ymgymryd â cham-drin hawliau dynol nag amgylcheddol;
- Mabwysiadu a chynnal eu gweithgareddau masnachu yn unol â **Chôd Sylfaenol Menter Masnachu Moesegol (ETI),** sy'n seiliedig ar **Gôd Safonau Llafur** y Sefydliad Llafur Rhyngwladol, y'u cydnabyddir yn rhyngwladol;
- Cadarnhau eu hymrwymiad i lynu wrth yr egwyddorion a osodir yn **Siarter y Blaid Gydweithredol yn Erbyn Caethwasiaeth Fodern**;
- Sicrhau bod gweithwyr yn ymwybodol bod modd iddynt ymuno ag undeb lafur ac na ellid eu trin yn llai ffafriol am fod yn aelod o undeb;
- Cydymffurfio gyda chyfraith lafur a chyfreithiau priodol eraill (e.e. Deddf Cydraddoldeb 2010);
- Darparu taliadau teg am gyflenwadau, gwaith a gwasanaethau drwy'r gadwyn gyflenwi;
- Darparu cyflogau teg i weithwyr;
- Peidio â rhoi gweithwyr ar y gosbrestr;
- Peidio â defnyddio teiars sy'n fwy na 10 oed yn unol â'r **Tyred Campaign**;
- Ymddwyn yn foesol a chynaliadwy wrth reoli a gweithredu eu busnes, gan gynnwys darparu gwasanaethau, gweithgynhyrchu a / neu ddarparu cyflenwadau, neu ddarparu gwaith;
- Cyfrannu at uchelgais y Cyngor o fod yn sefydliad sero net erbyn 2030 drwy helpu i greu Cymru, Prydain a byd sy'n fwy cynaliadwy drwy greu cadwyn gyflenwi sy'n defnyddio llai o garbon;
- Sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei chydnabod, ei diogelu a'i hyrwyddo'n weithredol lle bo modd, yn unol ag amcanion strategol y Cyngor a deddfwriaeth berthnasol;
- Darparu gwarantau digonol eu bod yn gweithredu mesurau technegol a threfniadau priodol i sicrhau bod eu prosesu data personol yn bodloni gofynion deddfwriaeth diogelu data a'u bod hefyd yn gweithredu rheolaethau a mesurau digonol i gyfyngu ar effaith bygythiadau seiber i ddiogelwch a chywirdeb setiau data'r Cyngor.

# Atodiad B2: Disgwyliadau ar Gyflenwyr (Ychwanegol)

Lle bo'n berthnasol a phriodol, mae'r Cyngor yn disgwyl i bob cyflenwr (a'u hisgontractwyr):-

- Darparu eu gwasanaethau, gweithgynhyrchu a / neu ddarparu cyflenwadau, neu ddarparu gwaith sydd wedi'i achredu i safonau a gydnabyddir (neu sy'n cyd-fynd â gofynion achrediadau perthnasol heb fod wedi'i hachredu'n swyddogol) ar draws ystyriaethau moesol, er enghraifft:-
  - Safonau Rhyngwladol, Ewropeaidd neu Brydeinigl
  - Cynllun Eco-reoli ac Archwilio (EMAS);
  - Safonau ac arferion amaethyddol da (GlobalG.A.P.);
  - Safonau wynebu'r cwsmer (e.e. Fairtrade, Rainforest Alliance, Tea Sourcing Partnership);
  - Dodrefn (FSC a PEFC); Atebolrwydd Cymdeithasol (SA8000).

Tudalen 33

Lle bo'n berthnasol a phriodol, mae'r Cyngor hefyd yn disgwyl i bob cyflenwr (a'u hisgontractwyr) weithio gyda ni a'n partneriaid i:-

- Lynu wrth safonau Marciau Treth Teg – sicrhewch fod eich sefydliad yn talu'r dreth gywir sy'n cyllido gwasanaethau a nwyddau cyhoeddus hanfodol.

# Atodiad B3: Data Sylfaen

Byddwn yn gwella'r gwaith o gasglu data ac adrodd, gosod data sylfaen yn y 2 flynedd gyntaf, a mesur gwelliannau ar ôl hynny.

Bydd y sylfaen hon yn cynnwys:-

- Gwariant Rhanbarthol (Ynys Môn);
- Gwariant Rhanbarthol (Gwynedd);
- Gwariant Rhanbarthol (Gweddill Gogledd Cymru);
- Gwariant Cenedlaethol (Gweddill Cymru);
- Pwysoli Gwerth Cymdeithasol Cyffredinol;
- Y Gwerth Cymdeithasol wedi'i addo;
- Y Gwerth Cymdeithasol a ddarparwyd, Gwariant oddi mewn / oddi ar y Contract.

# RHEOLAU GWEITHDREFNAU CONTRACTAU

**Cynnwys**


**1. Cyflwyniad**

**2. Dehongliadau a Diffiniadau**

**3. Trefniadau nad yw'r Rheolau hyn yn berthnasol iddynt**

**4. Comisiynu a Chaffael a Darpariaethau Cyffredinol**

**5. Cyn-Caffael**
- 5.1 Awdurdod i Gynnal y Broses Gaffael
- 5.2 Arfarnu'r Gweithgarwch Caffael
- 5.3 Cyswllt Cychwynnol â'r Farchnad, Ymchwil ac Ymgynghori
- 5.4 Manylebau, Safonau a Meini Prawf Gwerthuso
- 5.5 Penderfynu ar Gyfanswm Gwerth
- 5.6 Contractau sy'n Ymwneud â Gwasanaethau Gofal Penodol
- 5.7 Gwrthdaro Buddiannau, Llwgrwobrwyo, ac Atal Llygredd

**6. Gwahoddiadau a Derbyn Ceisiadau**
- 6.1 Dyfynbris Unigol (Band Gwerth A)
- 6.2 Dyfynbrisiau (Band Gwerth B)
- 6.3 Tendrau (Band Gwerth C)

**7. Gwerthuso a Dyfarnu**
- 7.1 Gwerthuso
- 7.2 Dyfarnu

**8. Terfynu'r Broses Gaffael**

**9. Cytundebau Fframwaith, Fframweithiau Agored a Marchnadoedd Dynamig**

**10. Darpariaethau Contract a Manylion Ffurfiol**
- 10.1 Darpariaethau'r Contract
- 10.2 Manylion Ffurfiol y Contract

**11. Rheoli Contractau**

**12. Hepgor Rheolau Gweithdrefnau Contractau ac Addasiadau i Gontractau**
- 12.1 Hepgoriadau
- 12.2 Addasiadau
- 12.3 Gweithdrefn ar gyfer Hepgoriadau ac Addasiadau
- 12.4 Darpariaethau Brys
- 12.5 Diffyg cydymffurfio â'r Rheolau hyn

**Atodiad 1: Diffiniadau**

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r Rheolau hyn yn rheolau sefydlog a wneir yn unol ag Adran 135 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae cydymffurfio â'r Rheolau hyn a chadw at y gyfraith, a'r deddfau a'r rheoliadau y maent yn deillio ohonynt (yn enwedig yr egwyddorion sy'n ymwneud â pheidio â gwahaniaethu, triniaeth gyfartal, cydnabyddiaeth gilyddol a thryloywder), yn orfodol i bob Swyddog, Aelod, asiant ac ymgynghorydd sy'n gweithredu ar ran y Cyngor. Mae'r Rheolau'n sicrhau bod gweithgarwch caffael yn cael ei gyflawni mewn modd sy'n cydymffurfio yn gyfreithiol, yn dryloyw, yn deg ac yn gystadleuol. Ni ddylai Aelodau geisio dylanwadu ar Swyddogion wrth weithredu unrhyw broses gaffael.

1.2. Mae penderfyniadau sy'n ymwneud â chaffael ymhlith y penderfyniadau pwysicaf y gall y Cyngor eu gwneud oherwydd bod yr arian dan sylw yn arian cyhoeddus ac mae'r Cyngor am sicrhau bod trefn gaffael sy'n sicrhau Cyflenwadau, Gwasanaethau a Gwaith o ansawdd uchel. Felly, mae'n hanfodol bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon er mwyn sicrhau'r Gwerth Gorau.

1.3. Rhaid i bob Swyddog sy'n ymwneud â chaffael, dyfarnu a rheoli contractau arddel y safonau uchaf o ran cywirdeb. Bydd Swyddogion yn cydymffurfio â'r Côd Ymddygiad ar gyfer Swyddogion.

1.4. Rhaid adrodd am unrhyw fethiant i gydymffurfio ag unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheolau hyn i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro. Gallai unrhyw Swyddog nad yw'n cydymffurfio â darpariaethau'r Rheolau hyn wynebu camau disgyblu.

1.5. Bydd y Rheolau hyn yn berthnasol i bob gweithgarwch caffael lle mae'r Cyngor am gaffael Cyflenwadau, Gwasanaethau neu Wneud Gwaith (gan gynnwys ar ran unrhyw bartneriaeth, consortiwm, cymdeithas neu gorff y mae'r Cyngor yn aelod ohono), naill ai fel awdurdod contractio neu gomisiynu o'r fath, waeth beth yw tarddiad y cyllid (megis grantiau allanol, cyllid partneriaeth, cyllidebau ar y cyd neu wedi'i gronni er enghraifft). Mae'r Rheolau hyn yn berthnasol i ysgolion a gynhelir gan y Cyngor, gan gynnwys Ysgolion a Reolir yn Wirfoddol, ac eithrio pan gânt eu diwygio gan Reoliadau Cyllid Ysgolion (Cymru) 2010 ("Cynllun Cyllido Teg") sy'n berthnasol i ysgolion. Nid yw'r Rheolau hyn yn berthnasol i Ysgolion Sylfaen.

1.6. Pan fo corff cyhoeddus arall yn gyfrifol am ymgymryd â gweithgarwch caffael ar ran y Cyngor, bydd rheolau caffael y corff cyhoeddus arall yn rheoli unrhyw weithgarwch caffael o'r fath, a bydd unrhyw broses ddirprwyo i'r corff cyhoeddus arall i dderbyn Dyfynbris / Tendr a dyfarnu'r Contract yn cael ei gwneud yn ysgrifenedig pan wneir y trefniant, fel arall ni chaiff hyn ei ddirprwyo y tu allan i'r Cyngor. Ym mhob achos, rhaid i'r trefniant ganiatáu i archwilwyr y Cyngor gael mynediad llawn i lwybr archwilio'r penderfyniadau a wnaed.

1.7. Bydd y Rheolau hyn yn berthnasol i ddyfarnu Contractau, Cytundebau Fframwaith, Fframweithiau Agored, Marchnadoedd Dynamig (neu debyg), Contractau Consesiwn ac unrhyw gytundebau eraill y gellir eu dyfarnu a / neu y darperir ar eu cyfer mewn deddfwriaeth o bryd i'w gilydd. Cyfeirir atynt ar y cyd fel Contractau yn y Rheolau hyn.

1.8. Dylid darllen y Rheolau hyn ar y cyd â Chyfansoddiad y Cyngor ac, yn benodol, y Rheolau Gweithdrefn Ariannol (4.8), Cynllun Dirprwyo'r Cyngor, gweledigaeth, blaenoriaethau a gwerthoedd y Cyngor, Cynllun Strategol Caffael ac unrhyw bolisïau sy'n deillio ohono, deddfwriaeth berthnasol, y Llawlyfr Caffael ac unrhyw ganllawiau eraill (fel y'u cyhoeddwyd gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151).

1.9. Pan fo cyfeiriad at y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 neu'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro yn y Rheolau hyn, gall y swyddogaeth honno gael ei dirprwyo ganddynt fel yr adlewyrchir yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion.

1.10. Mae'r Llawlyfr Caffael yn cynnwys arweiniad a gwybodaeth ymarferol fanwl bellach ar y gofynion uchod a chamau'r broses y mae'n rhaid i Swyddogion gyfeirio atynt wrth ymgymryd â gweithgareddau caffael.

## 2. Dehongliadau a Diffiniadau

2.1. Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng cyfraith Cymru a Lloegr a'r Rheolau hyn a Pholisi'r Cyngor, bydd gofynion cyfraith Cymru a Lloegr yn drech na'r Rheolau hyn a Pholisi'r Cyngor. Bydd y Rheolau hyn yn drech na Pholisi'r Cyngor.

2.2. Bydd unrhyw gyfeiriad at ddeddfwriaeth, Sylfaenol neu Is-ddeddfwriaeth, yn cynnwys unrhyw ddiwygiadau / newidiadau a wneir o bryd i'w gilydd.

2.3. Mae'r holl ffigurau a bennir yn y Rheolau hyn yn cynnwys TAW.

2.4. Os bydd unrhyw amheuaeth ynghylch dehongli neu gymhwyso'r Rheolau hyn, neu o ran y weithdrefn briodol i'w dilyn, dylid gofyn am gyngor y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro.

2.5. Yn Atodiad 1, eglurir ystyron geiriau ac ymadroddion allweddol yn y Rheolau hyn.

## 3. Trefniadau nad yw'r Rheolau hyn yn berthnasol iddynt

3.1. **Nid yw'r** Rheoliadau hyn yn berthnasol i'r canlynol:-

*Contractau cyflogaeth*

3.1.1. Contractau cyflogaeth neu staff ar gyfer Swyddogion a gyflogir ar sail talu wrth ennill.

3.1.2. Unrhyw gontract arall gydag unigolyn os oes angen talu neu roi iawndal i'r unigolyn hwnnw / honno pan gaiff ei benodi / phenodi i Swydd Gyhoeddus gan yr awdurdod contractio, gan gynnwys fel:-
(a) Cyfarwyddwr Anweithredol awdurdod cyhoeddus, neu
(b) aelod o ymchwiliad cyhoeddus.

*Buddsoddiadau a chronfeydd ariannol*

3.1.3. Contractau ar gyfer darparu neu gynnal gwasanaeth neu weithgaredd buddsoddi, neu wasanaeth ategol, mewn perthynas ag offeryn ariannol gan gwmni buddsoddi neu sefydliad credyd cymwys.

3.1.4. Contractau ar gyfer benthyca arian mewn unrhyw arian cyfred i'r Cyngor.

*Trafodion tir*

3.1.5. Contractau ar gyfer caffael neu waredu tir neu eiddo neu fuddiant neu hawl dros dir neu eiddo (y mae Rheolau'r Weithdrefn Ariannol yn berthnasol iddynt).

*Gwasanaethau cyfreithiol*

3.1.6. Contractau a awdurdodir gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ar gyfer penodi cyfreithiwr at ddibenion achosion barnwrol neu achosion datrys anghydfod arall, neu gyngor gan gyfreithiwr mewn cysylltiad ag achosion barnwrol posibl, neu ystyriaeth ohonynt.

3.1.7. Contractau ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol a ddarperir gan berson y mae'n ofynnol iddynt eu darparu o dan ddeddfiad neu orchymyn llys neu dribiwnlys (h.y. pan fo llys yn gofyn ac yn awdurdodi bod y Cyngor yn comisiynu ac yn talu am wasanaethau unigolyn a bennir gan y llys (e.e. therapydd a benodir gan y llys)).

3.1.8. Contractau ar gyfer darparu gwasanaethau cyflafareddu, cyfryngu neu gymodi, neu wasanaethau tebyg eraill a gymeradwywyd gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro.

*Cyllid grant*

3.1.9. Dyfarnu grantiau neu daliadau personol gan y Cyngor i unigolion a / neu drydydd parti.

*Contractau o fewn y Sector Cyhoeddus*

3.1.10. Contractau cymwys rhwng endidau yn y sector cyhoeddus (trefniadau fertigol a llorweddol fel y'u diffinnir yn y Ddeddf).

*Artistiaid a gweithiau artistig*

3.1.11. Cyflenwadau neu Wasanaethau sydd â gwerth hyd at y Trothwy sydd o natur arbenigol neu unigryw, megis eitemau hynafol, artistiaid perfformio (e.e. cynyrchiadau theatr, digrifwyr, cantorion, awduron ac ati) a / neu weithiau celf sy'n bodoli eisoes.

*Pecynnau gofal*

3.1.12. Gwasanaethau lle mae'n ofynnol i'r contract sicrhau bod y gofal a'r cymorth yn parhau, lle gallai newid yn y darparwr fod yn niweidiol i ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd (lle nad yw gwerth cyfunol contractau a ddyfernir i un darparwr yn uwch na'r Trothwy). Rhaid cael cymeradwyaeth gan y Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol. Mae'n ofynnol i'r holl Gontractau o ganlyniad i'r Rheol 3.1.12 hon gael eu cofnodi ar y Gofrestr Contractau, a chyhoeddir hysbysiadau dyfarnu priodol fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf.

3.1.13. Pecynnau Gofal, waeth beth fo'u gwerth, yn ymwneud â Nyrsio Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Cartrefi Gofal Preswyl, yn ogystal â chontractau sy'n gysylltiedig â Gwasanaethau Iechyd Rhywiol (Mynediad Agored). Mae'n ofynnol i'r holl Gontractau o ganlyniad i'r Rheol 3.1.13 hon gael eu cofnodi ar y Gofrestr Contractau, a chyhoeddir hysbysiadau dyfarnu priodol fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf.

*Darperir gan ddeddfwriaeth benodol*

3.1.14. Unrhyw gontractau sydd wedi'u heithrio'n benodol gan ddeddfwriaeth;

3.1.15. Unrhyw gontractau sydd wedi'u heithrio gan Ddeddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024, dim ond at Reolau 6.2, 6.3, 6.4 y mae datgymhwyso'r Rheoliadau hyn yn berthnasol.

3.2. Nid oes unrhyw beth yn yr uchod yn eithrio'r trefniadau hyn rhag unrhyw ofyniad arall yn y Cyfansoddiad.

## 4. Comisiynu a Chaffael a Darpariaethau Cyffredinol

4.1. Dylai gweithgareddau comisiynu'r Cyngor fod yn seiliedig ar ganlyniadau a chanolbwyntio ar y newid neu'r effaith a ddymunir yn hytrach nag ar fewnbynnau neu brosesau. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor yn gallu dangos yn glir y cysylltiad â'r cyfarwyddyd a nodir ym mholisïau allweddol y Cyngor e.e. Cynllun y Cyngor. Dylai'r Swyddog Caffael Cymeradwy (SCC) gadarnhau polisïau allweddol ar gyfer y gwaith caffael perthnasol gyda'u Pennaeth Gwasanaeth.

4.2. Bob blwyddyn, bydd y Rheolwr Caffael, yn unol â'r Ddeddf, yn cyhoeddi hysbysiad o'u bwriadau ar y Llwyfan Digidol Canolog sy'n nodi bwriadau'r Cyngor o ran comisiynu a chaffael. Gweler y Llawlyfr Caffael am ragor o wybodaeth.

4.3. Bydd Cofrestr Contractau o'r holl Gontractau byw dros £30,000 yn cael ei chadw gan y Rheolwr Caffael. Bydd y Gofrestr Contractau ar gael ar wefan y Cyngor.

4.4. Bydd SCC a Swyddogion Cyfrifol Cymeradwy (SC) yn diweddaru ffeil gontract ar gyfer pob contract unigol y maent yn gyfrifol amdano. Gweler y Llawlyfr Caffael am ragor o wybodaeth.

## 5. Cyn-Caffael

### 5.1. Pwy sydd ag awdurdod i wneud gwaith caffael ar ran y Cyngor?

5.1.1. Rhaid i unrhyw weithgarwch caffael a wneir ar ran y Cyngor gael ei gynnal gan SCC gyda'r awdurdod dirprwyedig priodol, fel y nodir yn y Cynllun Dirprwyo.

### 5.2. Arfarnu'r Gweithgarwch Caffael

5.2.1. Cyn dechrau ymarferiad caffael o dan Reol 6.1, 6.2 neu 6.3, mae'n hanfodol bod y SCC wedi nodi'r angen ac wedi asesu'n llawn unrhyw opsiynau ar gyfer diwallu'r anghenion hynny, gan gynnwys asesiad risg, sy'n rhan o'r broses gomisiynu gyffredinol. Bydd adolygiadau yn cael eu cynnal yn rheolaidd, yn ystod y cam caffael a hefyd ar ôl dyfarnu'r contract. Rhoddir ystyriaeth i'r Cynllun Strategol Caffael.

5.2.2. Bydd y SCC yn ystyried y materion a nodir yn y Llawlyfr Caffael.

5.2.3. Bydd y SCC yn sicrhau bod ganddynt gymeradwyaeth gyllidebol cyn dechrau unrhyw weithgarwch caffael.

### 5.3. Cyswllt Cychwynnol â'r Farchnad, Ymchwil ac Ymgynghori

5.3.1. Caiff cyswllt cychwynnol â'r farchnad a / neu ymchwil i'r farchnad ei annog er mwyn sicrhau bod y gofynion cywir yn cael eu caffael gan y Cyngor yn y ffordd orau bosibl.

5.3.2. Caiff y SCC ymgymryd ag ymchwil priodol i'r farchnad a chyswllt cychwynnol â'r farchnad cyn dechrau gweithgarwch caffael yn unol â'r Llawlyfr Caffael.

5.3.3. Ar gyfer caffael Band Gwerth C, rhaid i'r SCC gydymffurfio â'r Ddeddf o ran gofynion cyhoeddi ar y Llwyfan Digidol Canolog. Gweler Llawlyfr Caffael am arweiniad.

### 5.4. Manylebau, Safonau a Meini Prawf Gwerthuso

5.4.1. Cyn gwahodd Dyfynbrisiau neu Dendrau, rhaid i'r SCC, yn unol â'r Llawlyfr Caffael, baratoi manyleb ar gyfer derbyn Ceisiadau gan Gynigwyr.

5.4.2. Cyn gwahodd Dyfynbrisiau neu Dendrau, rhaid i'r SCC, yn unol â'r Llawlyfr Caffael, ddiffinio'r Meini Prawf Dethol, Rhestr Fer a Dyfarnu yn ôl yr angen ac sy'n briodol i'r gweithgarwch caffael ac wedi'i gynllunio i sicrhau canlyniad sy'n rhoi Gwerth am Arian.

### 5.5. Penderfynu ar Gyfanswm Gwerth

5.5.1. Ymdrinnir â'r holl gaffaeliadau ar sail cyfanswm eu gwerth fel y'i diffinnir yn y Llawlyfr Caffael. Rhaid i'r SCC gyfrifo cyfanswm gwerth y Contract er mwyn penderfynu pa weithgarwch caffael sy'n ofynnol ac sydd fwyaf priodol.

5.5.2. Dylai'r Cyngor wneud y defnydd gorau o'i allu prynu drwy gyfuno pryniannau lle bynnag y bo modd. Ni fydd caffaeliadau'n cael eu rhannu'n fwriadol mewn ymgais i osgoi cymhwyso'r Rheolau hyn neu'r Ddeddf (yn llawn neu'n rhannol).

5.5.3. Gweithgarwch Caffael Gofynnol:-

| **Band Gwerth** | **Gwerth (Cynnwys TAW)** | **Isafswm Gofyniad Gweithgarwch Caffael** | **Isafswm Gofyniad Hysbysebu** |
|---|---|---|---|
| **A** | Hyd at £11,999.99 | 1 Dyfynbris i'w dderbyn yn unol â Rheol 6.1 | Amh. |
| **B** | Rhwng £12,000.00 a'r Trothwy | ***NAILL AI***:<br>O leiaf o 3 Dyfynbris i'w derbyn yn unol â Rheol 6.2<br>***NEU***<br>Dendr yn unol â Rheol 6.3 | Rheol 6.2: Amh.<br><br>Rheol 6.3: GwerthwchiGymru***** |
| **C** | Trothwy+ | Y weithdrefn fwyaf priodol a ganiateir gan y Ddeddf | Llwyfan Digidol Canolog, GwerthwchiGymru |

****Pan gyhoeddir unrhyw hysbyseb ar gyfer Contract o Werth Band B ac C, rhaid ei gyhoeddi hefyd ar y Llwyfan Digidol Canolog cyn unrhyw hysbyseb arall neu hysbyseb GwerthwchiGymru. Trwy ddefnyddio GwerthwchiGymru bydd hyn yn cael ei wneud yn awtomatig.***

5.5.4. Ni waeth beth yw'r gwerth yn Rheol 5.5.3, pan fo'n un o ofynion y cyllid grant, bydd y broses gaffael yn cael ei hysbysebu yn unol ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd / a dderbyniwyd gan y darparwr grant.

5.5.5. Pan fo gwerth y Contract yn dod o fewn Band Gwerth B, bydd y SCC yn penderfynu pa weithgarwch caffael y dylid ei ystyried drwy gyfeirio at y Llawlyfr Caffael.

5.5.6. Pan fo gwerth y Contract o fewn Band Gwerth C, bydd y SCC, mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaeth Caffael, yn penderfynu pa un yw'r weithdrefn fwyaf priodol a ganiateir gan y Ddeddf drwy gyfeirio at y Llawlyfr Caffael. Bydd egwyddorion cyffredinol Rheolau 6.3 a 7 yn berthnasol i gaffaeliadau sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf.

5.6. **Contractau sy'n ymwneud â Gwasanaethau Gofal Penodol**

5.6.1. Hyd nes y bydd Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024 ac is-ddeddfwriaeth berthnasol yn dod i rym, bydd y Rheol 5.6 hon yn berthnasol: wrth gaffael a / neu gomisiynu Gwasanaethau Gofal Penodol, dylid sicrhau gwerth am arian, ynghyd â chydymffurfio â'r Ddeddf. Felly, dylid creu Cytundebau Fframwaith cyffredinol, Fframweithiau Agored neu Farchnadoedd Dynamig (neu drefniadau tebyg) a dyfarnu contractau o dan y rhain ar gyfer cymaint o'r Gwasanaethau Gofal Penodol hyn â phosibl. Dylid gwneud darpariaethau o fewn y cytundebau cyffredinol hyn i wneud y broses ddyfarnu yn briodol, effeithlon a chost effeithiol i'r Cyngor, gan leihau unrhyw gyfraddau methiant wrth ddyfarnu trwy'r dulliau hyn.

5.6.2. Pan na ellir dyfarnu Contractau ar gyfer Gwasanaethau Gofal Penodol yn unol â Rheol 5.6.1, a bod amser yn caniatáu, dylid eu dyfarnu o dan Reolau 6.1, 6.2 neu 6.3 fel y bo'n briodol.

5.6.3. Pan na ellir dyfarnu Contractau ar gyfer Gwasanaethau Gofal Penodol yn unol â Rheol 5.6.1 neu 5.6.2, ac y ceisir lleoliad ar gyfer unigolyn sydd â darparwr gofal cofrestredig o'u dewis (neu, lle bo angen, eu teuluoedd neu eu gofalwyr), neu fod y broses benderfynu ynghylch lle mae unigolyn yn cael ei leoli yn cynnwys partneriaid allanol (h.y. y tu allan i awdurdodaeth a rheolaeth y Cyngor), gellir eu dyfarnu heb gystadleuaeth os ceir cymeradwyaeth gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Dylid cofnodi'r broses benderfynu, ynghyd ag enwau'r Swyddogion a'r partneriaid dan sylw, a'r rhesymau dros ddewis y darparwr, yng nghofnod gofal yr unigolyn. Pan fo'r gwerth yn uwch na'r Trothwy, rhaid dangos hefyd y bodlonwyd unrhyw gyfiawnhad, fel y darperir ar ei gyfer yn y Ddeddf, cyn ceisio cymeradwyaeth Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

5.6.4. **Anghenion Addysg Arbennig ac Anabledd (SEND):** Pan na ellir dyfarnu Contractau ar gyfer Gwasanaethau Gofal Penodol sy'n gysylltiedig â SEND yn unol â Rheol 5.6.1 neu 5.6.2, a bod y broses i benderfynu lle mae unigolyn yn cael ei leoli yn cynnwys partneriaid allanol (h.y. y tu allan i reolaeth ac awdurdodaeth unigol y Cyngor), gellir eu dyfarnu heb gystadleuaeth os ceir cymeradwyaeth gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Dylid cofnodi'r broses benderfynu, ynghyd ag enwau'r Swyddogion a'r partneriaid dan sylw, a'r rhesymau dros ddewis y darparwr, yng nghofnod gofal yr unigolyn. Pan fo'r gwerth yn uwch na'r Trothwy, rhaid dangos hefyd y bodlonwyd unrhyw gyfiawnhad, fel y darperir ar ei gyfer yn y Ddeddf, cyn ceisio cymeradwyaeth Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

5.6.5. Mae unrhyw achosion eraill yn gofyn am Hepgoriad, yn unol â Rheol 12.

5.6.6. Mae'n ofynnol i bob Contract sy'n werth mwy na £30,000 a ddyfarnwyd o ganlyniad i'r Rheol 5.6 hon gael eu cofnodi ar y Gofrestr Contractau, a dylai Hysbysiadau Tryloywder neu Hysbysiadau Dyfarniad Contract priodol gael eu cyhoeddi, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf.

5.7. **Gwrthdaro Buddiannau, Llwgrwobrwyo ac Atal Llygredd**

5.7.1. Mae enw da'r Cyngor o ran gweithgarwch caffael yn bwysig, a dylid ei ddiogelu rhag unrhyw honiad o anonestrwydd neu lygredd. Atgoffir pob Swyddog o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â rhoddion, lletygarwch a gwrthdaro buddiannau a dylent sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a nodir yn y Codau Ymddygiad perthnasol ac unrhyw bolisïau, canllawiau neu strategaethau perthnasol sy'n ymwneud â llwgrwobrwyo, twyll a llygredd a gyhoeddwyd neu a gymeradwywyd gan y Cyngor o bryd i'w gilydd.

5.7.2. Rhaid i unrhyw Swyddog ddatgan unrhyw achos o wrthdaro buddiannau a allai ddylanwadu ar eu barn mewn perthynas â gweithgarwch caffael. Mae hyn yn cynnwys cyswllt cychwynnol â'r farchnad, ysgrifennu manylebau, gwerthuso a chamau penderfynu dyfarniadau.

5.7.3. Ar gyfer caffaeliadau sy'n uwch na'r Trothwy, rhaid i'r SCC, yn unol â'r Llawlyfr Caffael, lunio Asesiad Risg Gwrthdaro Buddiannau a'i gofnodi ar y Gofrestr, a'i ddiweddaru trwy gydol y broses gaffael.

## 6. Gwahoddiadau a Derbyn Ceisiadau

### 6.1. Dyfynbris Unigol (Band Gwerth A)

6.1.1. Mae dyfynbris unigol mewn unrhyw fodd yn dderbyniol yn unol â'r Rheol 6.1 hon. Mae hyn yn cynnwys sgrinluniau o gatalogau, prisiau o wefannau, ac ati, yn lle dyfynbris ffurfiol.

6.1.2. Dylai'r Cyngor geisio sicrhau bod ei wariant ar yr economi lleol yn cael cymaint â phosibl o effaith ac, felly, lle bo hynny'n bosibl, dylid cael y Dyfynbris gan Weithredwr Economaidd lleol addas gan ddefnyddio'r dull canlynol ar sail ardal: 1. Ynys Môn, 2. Gwynedd, 3. Gogledd Cymru, 4. Cymru, 5. Ardaloedd eraill.

6.1.3. Nid oes unrhyw beth yn atal SCC rhag dilyn Rheol 6.2 os oes amheuon ynghylch sicrhau gwerth am arian.

### 6.2. Dyfynbrisiau (Band Gwerth B)

6.2.1. Rhaid derbyn o leiaf tri dyfynbris ysgrifenedig yn unol â'r Rheol 6.2 hon.

**Gweithgaredd Cyn-Dyfynbris**

6.2.2. Rhaid dilyn y camau gweithredu yn Rheol 5 cyn dechrau gyda'r Rheol 6.2 hon.

**Cais am Ddyfynbrisiau**

6.2.3. Rhaid ymgynghori â'r Gwasanaeth Caffael cyn gwahodd unrhyw Ddyfynbris.

6.2.4. Ar gyfer Contractau ar gyfer Cyflenwadau, mae sgrinluniau o wybodaeth berthnasol (catalogau, prisio o wefannau, ac ati) yn dderbyniol yn lle gofyn am ddyfynbrisiau ffurfiol. Ar gyfer pob Contract arall, mae angen cais am Ddyfynbris.

6.2.5. Dylai'r Cyngor geisio sicrhau bod ei wariant ar yr economi lleol yn cael cymaint â phosibl o effaith ac, felly, lle bo hynny'n bosibl, dylid cael y Dyfynbris gan Weithredwyr Economaidd lleol addas gan ddefnyddio'r dull canlynol ar sail ardal: 1. Ynys Môn, 2. Gwynedd, 3. Gogledd Cymru, 4. Cymru, 5. Ardal arall. Gweler Llawlyfr Caffael am arweiniad.

6.2.6. Rhaid anfon gwahoddiadau drwy GwerthwchiGymru. I anfon gwahoddiadau drwy unrhyw ddull arall, rhaid ymgynghori â'r Rheolwr Caffael a chael cymeradwyaeth.

6.2.7. Bydd y cais am Ddyfynbris yn cyfeirio at, neu'n cynnwys, gwybodaeth fel y nodir yn y Llawlyfr Caffael.

6.2.8. Nid oes unrhyw beth yn atal SCC rhag dilyn Rheol 6.3 os oes amheuon ynghylch pwy i'w gwahodd i gynnig Dyfynbris neu sicrhau gwerth am arian.

**Cyflwyno a Derbyn Dyfynbrisiau**

6.2.9. Rhaid derbyn dyfynbrisiau trwy GwerthwchiGymru, ac ni chânt eu hagor nes bod y dyddiad a'r amser cau penodedig wedi mynd heibio. I dderbyn Dyfynbrisiau drwy unrhyw ddull arall, rhaid ymgynghori â'r Rheolwr Caffael a chael cymeradwyaeth.

6.2.10. Bydd unrhyw Ddyfynbris (gan gynnwys yr holl ddogfennau cysylltiedig) a gyflwynir ar ôl y dyddiad a'r amser penodedig ar gyfer cyflwyno Dyfynbrisiau ond yn cael ei dderbyn neu ei ystyried gan y Cyngor mewn amgylchiadau eithriadol, a dim ond gyda chytundeb gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro.

### 6.3. Tendr (Bandiau Gwerth B a C)

6.3.1. At ddibenion y Rheol hon, ar gyfer gweithgarwch caffael Band Gwerth C, mae cyfeiriad at Dendr yn cynnwys cyfeirio at geisiadau i gymryd rhan, a cheisiadau ar y camau amrywiol a allai fod yn rhan o'r ymarferiad caffael hwnnw).

**Gweithgarwch Cyn-Tendro**

6.3.2. Rhaid dilyn y camau gweithredu yn Rheol 5 cyn dechrau gyda'r Rheol 6.3 hon.

**Gwahoddiad i Dendro**

6.3.3. Rhaid ymgynghori â'r Gwasanaeth Caffael cyn i unrhyw Dendr gael ei hysbysebu. Bydd y Gwasanaeth Caffael yn gyfrifol am gymeradwyo a rhyddhau unrhyw hysbysebion, hysbysiadau a dogfennau.

6.3.4. Bydd y SCC yn hysbysebu pob cyfle i Dendro ar GwerthwchiGymru, ac fe'u gwneir trwy GwerthwchiGymru. Ar gyfer caffaeliadau Band Gwerth B, dylid cyfeirio at y Llawlyfr Caffael ar gyfer unrhyw gyfyngiadau a ganiateir y gellir eu gosod ar gymhwysedd Cynigwyr. Ar gyfer caffaeliadau Band Gewrth C, rhaid i'r SCC gydymffurfio â'r Ddeddf o ran gofynion cyhoeddi ar y Llwyfan Digidol Canolog. Gweler Llawlyfr Caffael am arweiniad.

6.3.5. Bydd y Gwahoddiad i Dendro yn cyfeirio at, neu'n cynnwys, gwybodaeth fel y nodir yn y Llawlyfr Caffael.

6.3.6. Pan ystyrir bod gofynion diogelwch yn angenrheidiol, bydd y SCC a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 (neu eu cynrychiolydd enwebedig) yn cytuno ar y math derbyniol o ddiogelwch gyda'r Contractwr.

**Cyflwyno a Derbyn Tendrau**

6.3.7. Rhaid derbyn tendrau trwy GwerthwchiGymru, ac ni chânt eu hagor nes bod y dyddiad a'r amser cau penodedig wedi mynd heibio.

6.3.8. Bydd unrhyw Dendr (gan gynnwys yr holl ddogfennau cysylltiedig) a gyflwynir ar ôl y dyddiad a'r amser penodedig ar gyfer cyflwyno tendrau yn cael ei dderbyn neu ei ystyried gan y Cyngor mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, a dim ond gyda chytundeb gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro.

## 7. Gwerthuso a Dyfarnu

### 7.1. Gwerthuso

7.1.1. At ddibenion y Rheol hon, mae cyfeiriad at y Tendr yn cynnwys gweithgarwch caffael Band Gwerth B a C, cyfeiriad at geisiadau i gymryd rhan a cheisiadau ar y camau amrywiol a allai fod yn rhan o'r ymarferiad caffael hwnnw.

7.1.2. Bydd y SCC yn ffurfio tîm gwerthuso, yn unol â'r canllawiau yn y Llawlyfr Caffael, gyda chyfrifoldeb am werthuso Dyfynbrisiau / Tendrau gyda chynrychiolaeth o wasanaethau eraill fel y maent yn ystyried sy'n briodol o dan yr amgylchiadau.

7.1.3. Bydd y SCC yn dilyn y canllawiau yn y Llawlyfr Caffael ynghylch gwrthdaro buddiannau y panel gwerthuso ac yn ceisio cymeradwyaeth gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro bod y swyddog sy'n datgan y buddiant yn cael parhau i gymryd rhan yn y panel gwerthuso.

7.1.4. Rhaid gwirio bod pob Dyfynbris / Tendr yn cydymffurfio â'r Fanyleb, y telerau a'r amodau a gofynion hanfodol eraill a allai fod yn angenrheidiol o bryd i'w gilydd cyn gwerthuso Dyfynbrisiau / Tendrau. Dylai unrhyw Ddyfynbris / Tendr nad yw'n bodloni'r safonau gofynnol hyn gael ei anghymhwyso a dylai'r penderfyniad hwn gael ei gyfleu i'r Cynigydd perthnasol cyn gwerthuso'r Dyfynbrisiau / Tendrau sy'n weddill / mynd ymlaen i'r cam nesaf.

7.1.5. Os canfyddir gwallau rhifyddol, dylid rhoi gwybod i'r Cynigydd am y rhain. Dylid gofyn iddo/i gadarnhau a chywiro unrhyw wallau cyfrifiadurol neu, yn achos pob gwall arall, cadarnhau neu dynnu eu Dyfynbris / Tendr yn ôl.

7.1.6. Dylid rhoi gwybod am unrhyw wall sylweddol a wnaed gan Gynigydd mewn Dyfynbris / Tendr o ran prisio, darparu neu fater arall sy'n ymwneud â pherfformiad y contract, i'r Cynigydd, a dylid gofyn iddo/i gadarnhau neu dynnu ei Ddyfynbris / Tendr yn ôl.

7.1.7. Gellir gofyn am eglurhad gan Gynigwyr ynghylch unrhyw agwedd o'u Dyfynbris / Tendr. Dylid cofnodi'r eglurhad hwn, a bydd yn ffurfio rhan o'r Contract gyda'r Cynigydd buddugol. Ni ddylid defnyddio unrhyw eglurhad fel cyfle i dderbyn gwybodaeth ychwanegol neu newydd gan Gynigydd, ac ni ddylid eu defnyddio i ddechrau trafodaethau.

7.1.8. Os derbynnir Dyfynbris / Tendr anarferol o isel, rhaid i'r SCC gael cyngor gan y Rheolwr Caffael ar sut i symud ymlaen. Darperir canllawiau yn y Llawlyfr Caffael. Rhaid i unrhyw benderfyniad i wrthod Dyfynbris / Tendr lle gwelir ei fod yn anarferol o isel gael ei gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb am y Contract mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

7.1.9. Dylid cofnodi'r gwerthusiad a'i gadw yn unol â'r canllawiau yn y Llawlyfr Caffael. Rhaid i swyddogion sicrhau tryloywder a thegwch yn y broses werthuso.

7.2. **Dyfarnu**

7.2.1. Os dilynwyd Rheol 6.2 ac na dderbyniwyd y nifer lleiaf o geisiadau sydd eu hangen, rhaid ymgynghori â'r Rheolwr Caffael er mwyn cael cymeradwyaeth i fwrw ymlaen. Os na roddir cymeradwyaeth, rhaid cynnal ymarferiad caffael newydd. Gweler y canllawiau yn y Llawlyfr Caffael.

7.2.2. Rhaid rhoi cymeradwyaeth i ddyfarnu'r Contract yn unol â Rheolau Gweithdrefn Gyllid a Chynllun Dirprwyo'r Cyngor

7.2.3. Unwaith y bydd cymeradwyaeth i ddyfarnu contract yn cael ei rhoi, bydd y SCC yn rhoi gwybod i Gynigwyr aflwyddiannus am y penderfyniad i ddyfarnu, ac yn darparu unrhyw adborth y maent yn credu sy'n angenrheidiol. Ar gyfer Contractau Band Gwerth C, rhaid i'r SCC gydymffurfio â'r Ddeddf o ran cynnwys cyfathrebiadau o'r fath ac amserlenni cysylltiedig. Gweler Llawlyfr Caffael am arweiniad.

7.2.4. Pan fo cyfanswm gwerth y Contract yn fwy na £30,000, bydd y SCC yn diweddaru'r Gofrestr Contractau gyda'r wybodaeth ofynnol.

7.2.5. Ar gyfer caffael Band Gwerth C, rhaid i'r SCC gydymffurfio â'r Ddeddf o ran gofynion cyhoeddi ar y Llwyfan Digidol Canolog. Gweler Llawlyfr Caffael am arweiniad.

7.2.6. Dylai ffurf y Contract fod yn unol â Rheol 10.

## 8. Terfynu'r Broses Gaffael

8.1.1. Ar gyfer caffaeliadau Band Gwerth C, pan fo'r broses gaffael yn cael ei hatal ac yn cael ei therfynu, rhaid i'r SCC gydymffurfio â'r Ddeddf o ran gofynion cyhoeddi ar y Llwyfan Digidol Canolog. Gweler Llawlyfr Caffael am arweiniad.

## 9. Dyfarnu drwy Gytundebau sy'n bodoli – Cytundebau Fframwaith, Fframweithiau Agored neu Farchnadoedd Dynamig (neu drefniadau tebyg)

9.1. Gellir dyfarnu Contract o unrhyw werth o dan Gytundeb Fframwaith sy'n bodoli eisoes, Fframwaith Agored neu Farchnad Ddynamig (neu drefniant tebyg) heb ddilyn gofynion Rheolau 6.1, 6.2 neu 6.3. Mae'r Llawlyfr Caffael yn darparu gwybodaeth am y trefniadau hyn a phryd y gellir eu defnyddio.

## 10. Darpariaethau Contract a Manylion Ffurfiol

10.1. **Darpariaethau'r Contract**

10.1.1. Rhaid i'r holl Gontractau fod yn ysgrifenedig gan amlinellu rhwymedigaethau, hawliau ac elfennau risg y partïon.

10.1.2. Lle bo'n bosibl, bydd y rhain yn cael eu llunio ar sail telerau ac amodau safonol y Cyngor, a fydd yn cael eu cynnwys gyda phob archeb a Cheisiadau am Ddyfynbris neu Wahoddiad i Dendro, neu ar sail telerau'r Cytundeb Fframwaith, Fframwaith Agored neu'r Farchnad Ddynamig (neu drefniant tebyg) perthnasol a ddefnyddir.

10.1.3. Bydd yr holl Gontractau ysgrifenedig yn nodi neu'n cynnwys (o leiaf):-

(a) Gwasanaethau, Nwyddau neu Wasanaethau i'w darparu;
(b) y pris i'w dalu, gyda datganiad o ostyngiadau neu ddidyniadau eraill;
(c) yr amser neu'r amseroedd ar gyfer cyflawni'r contract;
(ch) bod yn rhaid cydymffurfio â phob deddfwriaeth iechyd a diogelwch perthnasol a chodau ymarfer a bod unrhyw ofynion iechyd a diogelwch penodol a nodir yn y Gwahoddiad i Dendro neu Wahoddiad i Negodi sy'n ofynnol cyn dyfarnu'r contract wedi'u bodloni;
(d) cymal i sicrhau, pe bai'r Contractwr yn methu â darparu'r Gwasanaethau, Cyflenwadau neu Wneud Gwaith o fewn yr amser neu'r amseroedd a bennir yn y contract, bydd gan y Cyngor hawl i derfynu'r contract naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol ac adennill gan y Contractwr unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o gael unrhyw gontractwr addas yn ei le;
(dd) cymal sy'n rhoi'r hawl i'r Cyngor derfynu'r contract ac adennill gan y Contractwr swm unrhyw golled sy'n deillio o'i derfynu, os yw'r Contractwr, neu unrhyw berson sy'n gweithredu ar ei ran mewn perthynas â sicrhau neu weithredu'r cytundeb neu unrhyw gytundeb arall gyda'r Cyngor, wedi cyflawni unrhyw drosedd o dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010, neu wedi derbyn unrhyw ffi neu wobr y mae ei derbyn yn drosedd o dan Adran 117(2) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972;
(e) cymal sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Contractwr ddarparu gwybodaeth i'r Cyngor er mwyn i'r Cyngor gyflawni ei rwymedigaethau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a / neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004;
(f) cymal sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Contractwr gydymffurfio â gofynion, safonau a deddfwriaeth Diogelu Data er mwyn i'r Cyngor gyflawni ei rwymedigaethau a chydymffurfio â nhw;
(ff) y cyfryw amodau arbennig sy'n ymwneud â chyflawni'r cytundeb a nodwyd yn y dogfennau caffael sy'n ymwneud ag ystyriaethau economaidd, yn ymwneud ag arloesi, amgylcheddol, cymdeithasol neu sy'n gysylltiedig â chyflogaeth;
(g) cymal sy'n rhoi'r hawl i'r Cyngor derfynu'r contract ac adennill gan y Contractwr swm unrhyw golled sy'n deillio o'i derfynu, os:-
    (i) yw'r cytundeb wedi cael ei addasu'n sylweddol a fyddai wedi golygu bod angen gweithdrefn gaffael newydd o dan Ddeddfwriaeth; neu
    (ii) fod y Contractwr, ar adeg dyfarnu'r contract, wedi bod yn un o'r sefyllfaoedd y cyfeirir atynt mewn Deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Contractwr gael ei eithrio o'r weithdrefn gaffael; neu
    (iii) ni ddylai'r cytundeb fod wedi'i ddyfarnu i'r Contractwr o ystyried bod achos difrifol o dorri rhwymedigaethau o dan y gyfraith berthnasol; neu
    (iv) fod y Contractwr wedi'i gael yn euog o drosedd o dan y Rheoliadau Cosbrestru; neu
    (v) fod y Contractwr yn ymwneud ag unrhyw weithgaredd sy'n gysylltiedig â chaethwasiaeth fodern;
(ng) cymal fod anfonebau a gyflwynir i'w talu yn cael eu hystyried mewn modd amserol gan y Cyngor ac y telir y Contractwr o dan y contract o fewn yr uchafswm cyfnod o 30 diwrnod o'r dyddiad yr ystyrir bod yr anfoneb berthnasol yn ddilys ac yn ddiamwys neu unrhyw gyfnod byrrach arall y gall y Contractwr gytuno arno fel sy'n ofynnol gan unrhyw bolisi'r Cyngor;
(h) cymal lle mae'n ofynnol i'r Contractwr osod telerau cyfatebol i'r rhai yn (g) uchod mewn unrhyw is-gontract ar gyfer rhan o'r contract cyhoeddus sydd ganddo gyda'r Cyngor.

10.1.4. Pan fo Manyleb Safon Brydeinig briodol neu Gôd Ymarfer Safon Brydeinig a gyhoeddir gan y Sefydliad Safonau Prydeinig neu Safon Ewropeaidd neu Ryngwladol gyfatebol yn gyfredol ar ddyddiad y tendr, bydd pob contract yn ei gwneud yn ofynnol bod Gwasanaethau, Cyflenwadau neu Waith a ddefnyddir neu a gyflenwir a phob crefftwaith o safon sydd o leiaf yn unol â'r safon, neu unrhyw safon uwch y gellir ei nodi yn y cytundeb.

10.2. **Manylion Ffurfiol y Contract**

10.2.1. Gall Archeb fod ar ffurf Contract rhwng y Cyngor a Chontractwr ar gyfer contract a ddyfernir yn dilyn Rheol 6.1.

10.2.2. Rhaid i bob Contract arall sydd â gwerth islaw'r Trothwy gael ei lofnodi gan y SC sydd wedi'i awdurdodi i ddyfarnu'r cytundeb o dan Gynllun Dirprwyo'r Cyngor a'r Contractwr.

10.2.3. Mae llofnodion electronig yn dderbyniol ar yr amod bod llwybr archwilio clir ac ei fod yn eglur o ran y termau sy'n berthnasol.

10.2.4. **Selio**: Er gwaethaf Rheolau 10.2.1, 10.2.2 a 10.2.3, mae pob Contract yn ddarostyngedig i ofynion Erthygl 14 – Cyllid, Contractau a Materion Cyfreithiol) 2.14.4.2 ar gyfer selio.

## 11. Rheoli Contractau

11.1. Yn achos pob Contract, dylid cael Rheolwr Contract ar gyfer y trefniant cyfan. Os nad oes unrhyw Reolwr Contract wedi'i enwi, bydd y SCC yn cyflawni rôl Rheolwr Contract.

11.2. Bydd y Rheolwr Contract, yn gyfrifol am adolygu, monitro a gwerthuso'r contract i sicrhau bod ei ddarpariaethau a'r Gwasanaethau, y Cyflenwadau a'r Gwaith a wneir ynddo yn cael eu dilyn a'u cyflawni fel y dylid. Ceir rhagor o arweiniad yn y Llawlyfr Caffael.

11.3. Rhaid i'r SCC gydymffurfio â'r Ddeddf o ran gofynion cyhoeddi ar y Llwyfan Digidol Canolog ynghylch perfformiad y Contract ac ar ôl i'r Contract ddod i ben neu derfynu'n gynharach. Gweler Llawlyfr Caffael am arweiniad.

## 12. Hepgor Rheolau Gweithdrefnau Contract ac Addasiadau i Gontractau

12.1. **Hepgor Rheolau Gweithdrefnau Contract**

12.1.1. Mewn amgylchiadau cyfyngedig, efallai y bydd angen ceisio hepgor y Rheolau. Rhaid ceisio arweiniad gan y Rheolwr Caffael cyn gwneud unrhyw gytundeb.

12.1.2. Ni ellir caniatáu Hepgoriad os bydd hyn yn mynd yn groes i'r Ddeddf, ac ni ellir caniatáu Hepgoriad ôl-weithredol.

12.1.3. Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw dyfarnu contractau heb gystadleuaeth fel y darperir ar eu cyfer gan Reol 5.6, angen Hepgoriad yn unol â'r Rheol 12.1 hon.

12.1.4. Bydd hepgoriadau'n cael eu hystyried yn yr amgylchiadau isod yn unig. Ar gyfer Contractau Band Gwerth C, rhaid bodloni'r cyfiawnhad a nodir yn y Ddeddf yn ychwanegol at y canlynol:-

a) Bod y trefniant yn eithriad a ganiateir i'r gofyniad am gystadleuaeth sydd wedi'i chynnwys yng nghyfraith Cymru a Lloegr;
b) Bod y gofynion yn angenrheidiol mewn amgylchiadau brys gwirioneddol neu argyfwng na ellir ei ragweld sy'n cynnwys risgiau i bobl;
c) Bod y gofynion yn angenrheidiol mewn amgylchiadau brys gwirioneddol neu argyfwng na ellir ei ragweld sy'n cynnwys risgiau i eiddo neu darfu difrifol ar wasanaethau'r Cyngor, ac na ellir priodoli'r amgylchiadau ar gyfer y brys i'r Cyngor;
ch) Bwriedir prynu Cyflenwadau neu Wasanaethau perchnogol neu dan batent sydd, ym marn y SCC, ond ar gael gan un person, a bod modd dangos nad oes dewis rhesymol, boddhaol arall i'r Cyflenwadau perchnogol neu dan batent ar gael;

d) Bod y SCC yn gallu dangos na ellir cael cystadleuaeth ddilys mewn perthynas â phrynu Cyflenwadau, Gwasanaethau neu Wneud Gwaith penodol (e.e. atgyweiriadau a rhannau);
dd) Bod y SCC yn fodlon bod y Gwasanaethau neu Waith a wneir o natur mor arbenigol fel mai dim ond un person all eu cyflawni (e.e. ymgymerwyr statudol);
e) Bwriedir i gyflenwadau gael eu prynu gan, neu ar ran, y Cyngor mewn arwerthiant cyhoeddus;
f) Lle mae adolygiad gwasanaeth yn cynnwys y bwriad i gyd-derfynu Contractau perthnasol;
ff) Prynu darn o gelf neu eitem ar gyfer amgueddfa neu i fodloni gofynion penodol digwyddiad celfyddydol neu ddiwylliannol na all fod yn gystadleuol oherwydd natur y gofyniad a bod Rheol 3.1.11 ddim yn berthnasol;
g) Bod y trefniant mewn perthynas â chyllid grant cyfyngedig o ran amser gan gorff allanol, lle na fydd y cyfyngiadau amser yn caniatáu cwblhau proses gystadleuol a lle mae amodau'r grant yn caniatáu hyn (ar gael ar gyfer Contractau Band Gwerth B a C yn unig);
ng) Amgylchiadau lle bo eithriadau eraill (ar gael ar gyfer Contractau Band Gwerth B neu C yn unig).

12.1.5. Dylai ffurf y contract yr ymrwymir iddo, yn amodol ar gymeradwyo'r Hepgoriad a ganiateir, fod yn unol â Rheol 10.

12.2. **Addasu Contractau**

12.2.1. Gellir addasu contractau yn ystod cyfnod y cytundeb heb weithgarwch caffael newydd o dan yr amgylchiadau a nodir yn y Rheol 12.2 hon. Ystyr addasu yw unrhyw newid i'r Contract o'r hyn a weithredwyd, gan gynnwys newyddu / trosglwyddo ac estyniadau i gyfnod y contract. Rhaid gofyn am arweiniad gan y Rheolwr Caffael cyn gwneud unrhyw gytundebau.

12.2.2. Ni ellir rhoi cymeradwyaeth i Addasu os byddai hyn yn mynd yn groes i Ddeddfwriaeth, ac ni ellir rhoi cymeradwyaeth i Addasu yn ôl-weithredol.

12.2.3. Ar gyfer Contractau ym Mandiau Gwerth A a B, dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y bydd addasiadau yn cael eu hystyried:-

a) Darparwyd addasiad yn y dogfennau caffael gwreiddiol;
b) Lle na ddarparwyd ar gyfer Addasiadau yn y dogfennau caffael gwreiddiol a'u bod:-
   12.2.3.b.1. yn angenrheidiol mewn amgylchiadau brys gwirioneddol neu argyfwng na ellir ei ragweld sy'n cynnwys risgiau i bobl;
   12.2.3.b.2. yn angenrheidiol mewn amgylchiadau brys gwirioneddol neu argyfwng na ellir ei ragweld sy'n cynnwys risgiau i eiddo neu darfu difrifol ar wasanaethau'r Cyngor ac ni ellir priodoli'r amgylchiadau ar gyfer y brys i'r Cyngor;
   12.2.3.b.3. ni allai'r amgylchiadau a arweiniodd at yr Addasiad fod wedi cael eu rhagweld yn rhesymol gan y Cyngor cyn dyfarnu'r Contract, ac nid yw'r Addasiad yn newid natur gyffredinol y Contract, ac ni fyddai'n cynyddu amcan werth y Contract fwy na 100% o'i werth gwreiddiol;
   12.2.3.b.4. bod yr Addasiad ar gyfer yr un Cyflenwadau, Gwasanaethau neu Waith a wneir sy'n rhan o'r Contract a byddai defnyddio Contractwr gwahanol yn arwain at allbynnau sy'n wahanol i'r rhai y darperir ar eu cyfer eisoes yn y Contract, neu'n anghydnaws â nhw, ac a fyddai'n arwain at anawsterau anghymesur wrth weithredu / cynnal a chadw neu anghyfleustra sylweddol arall ac at ddyblygu costau sylweddol eraill i'r Cyngor, ac ni fyddai'r Addasiad yn cynyddu amcan werth y Contract fwy na 100% o'i werth gwreiddiol;
   12.2.3.b.5. bod yr Addasiad ar gyfer newyddu neu aseinio'r Contract i Gontractwr gwahanol oherwydd ailstrwythuro corfforaethol neu amgylchiadau tebyg.

12.2.4. Ar gyfer Contractau ym Mand Gwerth C (neu Gontractau a fydd yn dod yn Gontract Band Gwerth C pe bai'r Addasiad yn cael ei gymeradwyo), rhaid bodloni'r cyfiawnhad fel y nodir mewn Deddfwriaeth.

12.2.5. Pan nad yw Addasiad yn bodloni'r amgylchiadau uchod, rhaid ceisio Hepgoriad o dan gyfiawnhad Rheol 12.1, neu bydd angen gweithgarwch caffael newydd.

12.3. **Gweithdrefn ar gyfer Gofyn am Hepgor neu Addasu**

12.3.1. I wneud cais am Hepgor neu Addasu, rhaid i'r SCC gwblhau adroddiad yn y modd a ddarperir gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a cheisio ymgynghori ar y cynnwys gyda chynrychiolydd cyllid fel y'i henwebwyd gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, a'r Rheolwr Caffael. Mae'r Llawlyfr Caffael yn darparu'r adroddiad a manylion am y weithdrefn sydd i'w dilyn.

12.3.2. Os yw'r Hepgoriad / Addasiad ar gyfer Contract Band Gwerth C, rhaid ymgynghori hefyd â'r Dirprwy Swyddog Monitro (neu ei gynrychiolydd enwebedig) ar yr adroddiad cyn ei gyflwyno i'w gymeradwyo.

12.3.3. Ni ddylid gwneud unrhyw ymrwymiadau i'r Contractwr / darpar Gontractwr cyn awdurdodi'r adroddiad.

12.3.4. Rhaid i Bwyllgor Gwaith y Cyngor gymeradwyo Hepgoriadau o dan gyfiawnhad 12.1.4.ng.

12.3.5. Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y Contract yn cymeradwyo Addasiadau dan gyfiawnhad 12.2.3.a.

12.3.6. Rhaid i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Cyllid 151 a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro gymeradwyo Hepgoriadau ac Addasiadau yn unol â phob cyfiawnhad arall.

12.3.7. Rhaid i'r SCC gydymffurfio â'r Ddeddf o ran gofynion cyhoeddi ar y Llwyfan Digidol Canolog. Gweler Llawlyfr Caffael am arweiniad.

12.4. **Cymeradwyaethau Brys**

12.4.1. Os bydd amgylchiadau'n codi sy'n golygu na ellir cymeradwyo cais i Hepgor neu Addasu yn briodol drwy'r broses arferol fel sy'n ofynnol gan Reol 12.3, awdurdodir y Cyfarwyddwr Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y Contract a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, ar y cyd, er gwaethaf unrhyw beth a gynhwysir mewn mannau eraill yn y Rheolau Gweithdrefnau Contract hyn neu'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol, i gyflawni neu gontractio'r Gwasanaethau angenrheidiol neu Waith ar unwaith, neu ddarparu'r Cyflenwadau angenrheidiol, neu wneud unrhyw beth arall sy'n angenrheidiol ar ran y Cyngor.

12.4.2. Pan fo'r Contract yn Gontract Band Gwerth C, mae'n dal angen bodloni'r cyfiawnhad angenrheidiol fel y darperir ar ei gyfer gan Ddeddfwriaeth, a'r hysbysiadau angenrheidiol a gyhoeddir ar y Llwyfan Digidol Canolog gan y SCC.

12.4.3. Bydd defnyddio mesurau brys o'r fath yn gyfyngedig i gyfanswm gwariant penodol sy'n gorfod bod yn is na'r Trothwy.

12.5. **Diffyg Cydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefnau Contract hyn**

12.5.1. Os yw'r SC yn sylwi bod diffyg cydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefnau Contract hyn mewn perthynas ag unrhyw Gontract y maent yn gyfrifol amdano, bydd yn rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro yn syth.

12.5.2. Rhaid i'r wybodaeth nodi'r amgylchiadau sy'n ymwneud â diffyg cydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefnau Contract hyn a'r mesurau i'w cymryd rhag bod hyn yn digwydd drachefn.

12.5.3. Bydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro yn cymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw.

12.5.4. Bydd y SC yn darparu copi o unrhyw hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio i archwilydd mewnol y Cyngor.

**“Addasiad”**
Unrhyw amrywiad i Gontract, Cytundeb Fframwaith, Fframwaith Agored, Marchnad Ddynamig neu gytundeb arall, gan gynnwys estyniad.

**“Aelod(au)”**
Swyddogion etholedig gyda sedd yn y Cyngor.

**“Cofrestr Contractau”**
Cofrestr a gedwir ac a gynhelir gan y Gwasanaeth Caffael sy'n cynnwys manylion contractau a luniwyd gan y Cyngor sy’n werth £30,000 neu fwy.

**“Consesiynau”**
Rhoi hawl (yn benodol neu fel arall) i Weithredwr Economaidd fanteisio ar waith neu wasanaethau a ddarperir er eu budd eu hunain, gyda neu heb daliad. Gellir dod o hyd i ragor o ganllawiau ar gonsesiynau yn y Llawlyfr Caffael.

**“Contract”**
Cytundeb cyfreithiol rhwymol ar gyfer buddiant ariannol rhwng y Cyngor a'r Contractwr ar gyfer darparu'r Cyflenwadau, Gwasanaethau neu Waith perthnasol i'r Cyngor, ac sy'n cynnwys y telerau a’r amodau ar gyfer y Cyflenwadau, Gwasanaethau neu Waith.

**“Contractwr”**
Y Gweithredwr Economaidd y mae'r Cyngor yn llunio Contract ag ef/hi yn dilyn cyflwyno Dyfynbris neu Dendr ac a benodir gan y Cyngor i ddarparu'r Cyflenwadau, Gwasanaethau neu Waith, neu'r Contract Consesiwn. Gellir cyfeirio atynt hefyd fel 'cyflenwyr', 'consesiynwyr', 'darparwyr' neu 'ddarparwyr gwasanaeth'.

**“Cydnabyddiaeth gilyddol”**
Cydnabod dilysrwydd a thebygrwydd safonau, tystysgrifau a chymwysterau'r DU â safonau, ardystiadau a chymwysterau nad ydynt o’r DU gan Gyflenwyr Gwladwriaeth Gytuniad. Diffinnir Cyflenwyr Gwladwriaeth Gytuniad gan y Llywodraeth.

**“Cyfansoddiad”**
Cyfansoddiad y Cyngor.

**“Cyfarwyddwr Anweithredol”**
Unigolyn a benodir i fwrdd cyfarwyddwyr sefydliad nad yw'n cael ei gyflogi gan y sefydliad. Maent yn gweithredu fel cyfarwyddwyr neu gynghorwyr annibynnol i helpu'r sefydliad i gyflawni ei nodau.

**“Cyflenwadau”**
Eitem ddiriaethol, ddefnyddiol sy'n ofynnol gan y Cyngor o bryd i'w gilydd, p'un ai drwy brynu, prydlesu, rhentu, llogi neu waredu.

**“Cynigydd”**
Unrhyw Weithredwr Economaidd sy'n cyflwyno Dyfynbris neu Dendr.

**“Cynllun Dirprwyo”**
Y cynllun penodol yng nghyfansoddiad y Cyngor sy'n dirprwyo pwerau a dyletswyddau i Swyddogion y Cyngor o dan Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a'r holl bwerau eraill sy'n caniatáu trefn ddirprwyo o'r fath sy'n angenrheidiol i gyflawni swyddogaethau'r Cyngor.

**“Cynnig Mwyaf Manteisiol”**
Gweler y Tendr Mwyaf Manteisiol.

**“Cytundeb Fframwaith”**
Fel y'i diffinnir yn y Ddeddf.

**“Y Ddeddf”**
Deddf Caffael 2023 ac unrhyw is-ddeddfwriaeth berthnasol a ddeddfwyd gan Senedd y DU neu'r Senedd o bryd i'w gilydd.

**“Deddfwriaeth”**
Naill ai'r Ddeddf neu Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 neu Reoliadau Contractau Consesiwn 2016, fel sy'n briodol.

**“Deddfwriaeth Sylfaenol”**
Deddfau Seneddol.

**“Dyfarnu drwy gytundebau sy’n bodoli”**
Contract / archeb a wneir o dan Gytundeb Fframwaith, Fframwaith Agored neu Farchnad Ddynamig (neu gytundeb tebyg) sy'n bodoli eisoes.

**“Dyfynbris”**
Cynnig ffurfiol a gyflwynir gan Gynigydd i gyflenwi Cyflenwadau, Gwasanaethau neu Wneud Gwaith, neu weithredu Contract Consesiwn am bris diffiniedig.

**“Fframwaith Agored”**
Fel y'i diffinnir yn y Ddeddf.

**“Gwahoddiad i gyflwyno Dyfynbris / Tendr”**
Gwahoddiad gan y Cyngor i Gynigwyr i gyflwyno Dyfynbris neu Dendr ar gyfer darparu Cyflenwadau, Gwasanaethau neu Wneud Gwaith, neu Gontract Consesiwn yn unol â'r Fanyleb.

**“Gwaith / Gwneud Gwaith”**
Darparu gweithgarwch corfforol sy'n cael ei gyfeirio at gynhyrchu neu gyflawni rhywbeth gan y Contractwr ar gyfer y Cyngor, gan gynnwys gweithredu neu ddylunio a gweithredu.

**“Gwasanaethau”**
Yr amser, yr ymdrech a'r arbenigedd sy'n ofynnol gan y Cyngor, o bryd i'w gilydd, ac a gyflenwir gan Gontractwr.

**“Gwasanaethau Gofal Penodol”**
Cydnabyddir, naill ai oherwydd dewis defnyddwyr gwasanaeth neu natur y farchnad ar gyfer lleoliadau arbenigol, efallai na fydd prosesau caffael cystadleuol yn bosibl ar gyfer rhai contractau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol personol i unigolion yr aseswyd bod angen gwasanaethau arnynt o dan Ddeddf Cymorth Cenedlaethol 1948, Deddf y GIG a Gofal Cymunedol 1990, Deddf Plant 1998, Deddf Plant a Theuluoedd 2014, Deddf Gofal 2015 a Chôd Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ac unrhyw ddeddfwriaeth olynol.

**“Gweithredwr Economaidd”**
Unrhyw berson cymwys neu gyfreithiol neu endid cyhoeddus neu grŵp o bersonau a / neu endidau o'r fath, gan gynnwys unrhyw rai cysylltiedig dros dro, sy'n cynnig Cyflenwadau, Gwasanaethau neu Wneud Gwaith ar y farchnad.

**“Gwerth Gorau”**
Mae iddo’r un ystyr â'r hyn a ddiffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol 1999, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

**“GwerthwchiGymru”**
System e-Gaffael y Cyngor. Llwyfan Cymru gyfan ar gyfer hysbysebu a rheoli gweithgarwch caffael i'r Cyngor.

**“Gwerth y Cytundeb Gwreiddiol”**
Amcan werth neu werth gwirioneddol (pa un bynnag sydd fwyaf priodol) unrhyw gytundeb yn ystod cyfnod llawn y cytundeb, gan gynnwys yr holl opsiynau i ymestyn, a'r holl Wasanaethau, Cyflenwadau neu Wneud Gwaith ychwanegol dewisol y darperir ar eu cyfer.

**“Hepgor”**
Llacio'r rhwymedigaethau i gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

**“Is-ddeddfwriaeth”**
Offerynnau Statudol, Rheoliadau neu Orchmynion Eraill.

**“Llawlyfr Caffael”**
Y canllawiau y bydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd i nodi gweithdrefnau ac amcanion y Cyngor yn unol â'r Rheolau hyn. Llawlyfr Caffael.

**“Llwyfan Digidol Canolog”**
Y llwyfan ledled y DU ar gyfer cyhoeddi amrywiaeth o hysbysiadau a nodir mewn deddfwriaeth ar gyfer caffael a gweithgarwch caffael posibl a gweithgarwch rheoli contractau.

**“Manyleb”**
Allbynnau, canlyniadau a chwmpas a natur y Cyflenwadau, Gwasanaethau neu’r Gwaith a wneir neu Gontract Consesiwn sy'n ofynnol gan y Cyngor yn dilyn gweithgarwch caffael.

**“Marchnad Ddynamig”**
Fel y'i diffinnir yn y Ddeddf.

**“Meini Prawf ar gyfer Tynnu Rhestr Fer”**
Y meini prawf a ddefnyddir yn ystod y cyfnod dethol i wahaniaethu rhwng ymgeiswyr i benderfynu pwy ddylai fod ar y rhestr fer i’w gwahodd i gyflwyno tendr. Dim ond ar gyfer caffael uwch na’r Trothwy Rheoliad y gellir defnyddio'r rhain. Mae’r Meini Prawf ar gyfer y Rhestr Fer yn cael eu sgorio er mwyn gallu gwahaniaethu rhwng ymgeiswyr. Maent yn edrych yn ôl ar gapasiti, gallu, cymhwysedd, sgiliau a phrosiectau blaenorol yr ymgeisydd neu'r Cynigydd.

**“Meini Prawf Dethol”**
Y meini prawf a ddefnyddir naill ai yn ystod y cam dethol neu'r cam dyfarnu i benderfynu a yw ymgeisydd neu Gynigydd yn bodloni unrhyw ofynion gofynnol. Mae meini prawf dethol yn cael eu gwerthuso ar sail llwyddo neu fethu. Yn ogystal â phenderfynu a gydymffurfir ai peidio ag unrhyw safonau / camau gweithredu gofynnol, ac ati, maent yn edrych yn ôl ar gapasiti, gallu, cymhwysedd, sgiliau a phrosiectau blaenorol yr ymgeisydd neu'r Cynigydd.

**“Meini Prawf Dyfarnu”**
Y meini prawf a ddefnyddir i asesu sut y bydd Cynigydd yn cyflawni'r gofyniad a amlinellwyd. Bydd naill ai ar ffurf y Tendr Mwyaf Manteisiol neu bris yn unig. Pan ddefnyddir y Tendr Mwyaf Manteisiol, bydd yn cynnwys rhaniad rhwng pris ac elfennau eraill. Gall elfennau nad ydynt yn brisiau gynnwys (nid yw hon yn rhestr lawn) ffocws ar yr hyn a wneir, sut y bydd yn cael ei wneud, o fewn pa amserlen y bydd yn cael ei wneud, yr adnoddau sydd eu hangen i'w ddarparu.

**“Newyddu”**
Cyflawni'r hawliau a'r rhwymedigaethau rhwng partïon contractio a'u hail-lunio mewn contract newydd rhwng trydydd parti (yn lle parti contractio gwreiddiol) a'r partïon contractio sy’n rhan o'r contract gwreiddiol.

**“Rheolau”**
Y Rheolau Gweithdrefnau Contract hyn.

**“Rheolau Sefydlog”**
Rheolau ysgrifenedig a luniwyd, y cytunwyd arnynt ac sydd wedi’u codio gan y Cyngor i reoleiddio busnes, gwaith a gweithdrefnau'r Cyngor.

**“Rheolwr Caffael”**
Y Rheolwr Caffael, neu rôl debyg gyda phrofiad a statws cyfatebol o fewn y Gwasanaeth Caffael. Gall y camau hyn gael eu cymryd gan rôl uwch o fewn y tîm. Gall y camau hyn gael eu cymryd gan swyddog ar lefel is o fewn y tîm, yn amodol ar ddirprwyaeth.

**“SC”**
Swyddog Cyfrifol Cymeradwy yw unrhyw Swyddog o'r Tîm Arweinyddiaeth neu Benaethiaid Gwasanaeth neu berson arall o'r fath y dirprwywyd awdurdod iddo/i o dan Gynllun Dirprwyo'r Cyngor. Bydd pob SC yn gyfrifol ar y cyd â'u SCC am sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei dderbyn a'i ddiweddaru.

**“SCC”**
Swyddog Caffael Cymeradwy yw unrhyw swyddog o fewn un o gyfarwyddiaethau’r Cyngor, y dirprwywyd awdurdod iddo / i ymgymryd â, cychwyn a goruchwylio gweithgarwch caffael ar gyfer eu cyfarwyddiaeth ac sy'n gyfrifol am benderfyniadau sy'n gysylltiedig â dyfarnu contract mewn cysylltiad â'r Rheolau hyn.

**“Swydd Gyhoeddus”**
Sefyllfa o awdurdod neu wasanaeth sy'n cynnwys cyfrifoldeb i'r cyhoedd.

**“Swyddog”**
Unrhyw un o staff y Cyngor a fydd yn cynnwys unrhyw berson a gyflogir gan y Cyngor i weithredu fel asiant neu ymgynghorydd ar ei ran.

**“TAW”**
Treth ar Werth.

**“Tendr”**
Cynnig ffurfiol a gyflwynir gan Gynigydd i'r Cyngor am bris penodol mewn ymateb i Fanyleb.

**“Tendr Mwyaf Manteisiol”**
Fel y'i diffinnir yn y Ddeddf.

**“Trothwy”**
Y trothwy ariannol a nodwyd gan y Ddeddf, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd, a, lle bo'n berthnasol, sy’n ei gwneud yn ofynnol i weithgarwch caffael fod yn ddarostyngedig i'r Ddeddf. Mae'r trothwy wedi'i gynnwys yn y Llawlyfr Caffael.

**“TUPE”**
Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006, fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

**“Ynys Môn”**
Y diriogaeth sy'n cynnwys Cyngor Sir Ynys Môn.

**Crynodeb o'r Newidiadau**

Mae'r Rheolau Gweithdrefnau Contract (RhGC) wedi'u newid yn sylweddol o ran eu edrychiad. Gwnaed y newidiadau hyn er mwyn rhoi ystyriaeth i newidiadau mewn deddfwriaeth (presennol ac yn y dyfodol), i'w gwneud yn haws dod o hyd i wybodaeth, cryfhau nifer o ddarpariaethau a symud gwybodaeth nad yw'n hanfodol a chanllawiau i Lawlyfr Caffael.

Nid yw'r Llawlyfr Caffael ar gael ar ffurf drafft ar adeg paratoi'r ddogfen gryno hon.

Mae'r newidiadau hyn wedi golygu cael gwared ar reolau penodol ac ychwanegu rhai rheolau / trothwyon newydd. Manylir ar y rhesymau y tu ôl i'r rhain isod:-

**Tynnu allan o'r RhGC**

| Rhif Bresennol y Rheol | Yr hyn y mae'n ei ddweud | Pam ei bod wedi cael ei dynnu allan |
|---|---|---|
| 4.9.2.3 | Partneriaethau | Nid yw'n fater caffael, ac ymdrinnir â hyn o dan Reolau'r Weithdrefn Ariannol. Ymdrinnir â materion caffael o fewn Rheol 1 newydd. |
| 4.9.7.5 | Sut i ddychwelyd Tendrau | Mae hyn wedi dyddio ac nid yw'n ymarfer a ddefnyddir mwyach. |
| 4.9.3.2.4 | Cyfiawnhau Hepgor / Eithrio ar gyfer gwaith ychwanegol gan yr un contractwr os ydynt wedi gwneud gwaith cynharach a bod hyn wedi'i nodi'n flaenorol | Nid yw'n glir beth yw ystyr "a nodwyd yn flaenorol". Mae hyn yn annog difaterwch gan Wasanaethau, ac yn caniatáu cynllunio gwael, ac yn hepgor y rheolau cyfuno.<br><br>Dylai unrhyw beth a gynlluniwyd yn iawn gael ei gynnwys mewn rhyw ffordd yn y broses caffael / contract, a byddai'n Addasiad a ddarparwyd. Byddai unrhyw beth arall yn addasiad nas darparwyd ar ei gyfer a byddai'r seiliau perthnasol yn cael eu defnyddio.<br><br>Dylai unrhyw beth arall fod yn destun cystadleuaeth newydd gan nad oedd yn amlwg yn cael ei ystyried yn ddigon niweidiol i fod wedi cynllunio ar ei gyfer. |
| 4.9.3.2.7 | Hepgoriad / Eithriad ar gyfer: Celf a gweithiau artistig (islaw'r Trothwy) | Ni ellir tendro ar gyfer comisiynu beirdd (gwyliau llenyddol), artistiaid, gweithiau celf sy'n bodoli eisoes ac ati, ac mae cyfiawnhad penodol dros beidio â chystadlu yn y Ddeddf, felly, mae wedi'i gynnwys yn y rhestr o eithriadau ar gyfer RhGC.<br><br>Bydd modd Hepgor unrhyw beth uwchben y Trothwy o dan Reol newydd 12.1.4.i). |

| Rhif Bresennol y Rheol | Yr hyn y mae'n ei ddweud | Pam ei bod wedi cael ei dynnu allan |
|---|---|---|
| 4.9.6 | Caffael £10k i £30k | Mae hyn wedi'i dynnu allan ac mae'r gwerth wedi'i gynnwys ym Mand Gwerth B newydd (£12k hyd at y Trothwy). |

**Ychwanegiadau at y RhGC**

| Rhif Rheol Newydd | Yr hyn y mae'n ei ddweud | Pam ei bod wedi cael ei hychwanegu |
|---|---|---|
| 1.9 | Datganiad dirprwyo islaw'r Cyfarwyddwr Swyddogaethau (Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro) | I fod yn glir, drwy drefn ddirprwyo a gynlluniwyd, y gellir dirprwyo'r rôl hon pan ystyrir bod angen (er enghraifft yn ystod cyfnodau o absenoldeb). Ystyrir bod hyn yn angenrheidiol o ystyried y newidiadau a wnaed i'r caniatâd ar gyfer Hepgor ac Addasu. |
| 1.10 | Ychwanegu Llawlyfr Caffael ac y dylid ei ddarllen ar y cyd â'r RhGC | Bydd y Llawlyfr Caffael yn cael ei "gyhoeddi" gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, a bydd yn adnodd gorfodol a fydd yn gymorth ac yn ganllaw i Swyddogion ynglŷn â beth y mae angen iddynt ei wneud ar gyfer caffaeliadau amrywiol.<br><br>Mae'n caniatáu i'r RhGC ganolbwyntio ar "y Rheolau" a'r gofynion sylfaenol hanfodol, gyda'r Llawlyfr yn canolbwyntio ar ganllawiau a dulliau ymarfer gorau o sicrhau gwerth am arian. |
| 2 ac Atodiad 1 | Dehongliadau a Diffiniadau | Er mwyn sicrhau mai'r bobl briodol yn unig sy'n dehongli'r RhGC, a bod diffiniadau yn cael eu gwneud yn glir i bawb sy'n darllen y RhGC.<br><br>Eu bod yn gyson â deddfwriaeth ynghylch gwerthoedd (h.y. symud o Net i Gros). |
| 4.2 | Creu hysbysiad o fwriadau comisiynu / caffael | Cefnogi cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a Datganiad Polisi Caffael Cenedlaethol Cymru. |
| 3<br><br>3.1.2<br><br>3.1.3-4 | Trefniadau nad yw'r rheolau hyn yn berthnasol iddynt:-<br><br>Apwyntiadau Cyfarwyddwr Anweithredol ac ymholiadau cyhoeddus<br><br>Gwarantau ariannol a buddsoddiadau | <br><br>Wedi'i heithrio rhag gofynion y Ddeddf, felly, dylid ei heithrio o'r RhGC.<br><br>Wedi'i heithrio rhag gofynion y Ddeddf, felly, dylid ei heithrio o'r RhGC. |

| **Rhif Rheol Newydd** | **Yr hyn y mae'n ei ddweud** | **Pam ei bod wedi cael ei hychwanegu** |
|---|---|---|
| 3.1.6-8 | Gwasanaethau Cyfreithiol sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth | Wedi'i eithrio rhag gofynion y Ddeddf, felly dylid ei heithrio o'r RhGC. |
| 3.1.10 | Contractau penodol rhwng y sector cyhoeddus | Gan gymryd egwyddorion a nodir yn y Ddeddf, dylid eithrio cytundebau cydweithredu dilys. |
| 3.1.11 | Artistiaid neu weithiau artistig (islaw'r Trothwy) | Ni ellir tendro ar gyfer comisiynu beirdd (gwyliau llenyddol), artistiaid, gweithiau celf sy'n bodoli eisoes ac ati, ac mae cyfiawnhad penodol dros beidio â chystadlu yn y Ddeddf, felly, ar gyfer islaw'r Trothwy, dylid peidio ei gynnwys yn y rhestr o eithriadau ar gyfer RhGC. |
| 3.1.12 | Parhad gofal lle gallai newid fod yn niweidiol i'r defnyddiwr (Islaw'r Trothwy'r Rheolau) | Cydnabod y potensial i is-ddeddfwriaeth i Ddeddf Caffael Gwasanaethau Iechyd (Cymru) 2024 ddyblygu'r Gyfundrefn Dewis Darparwyr yn Lloegr. Mae hyn ar gyfer anghenion cyffredinol y defnyddiwr, dylid osgoi cystadleuaeth lle bo hynny'n bosibl - ar hyn o bryd, dim ond i drefniadau islaw'r trothwy y mae'n berthnasol, ond gellir ei ddiweddaru'n hawdd unwaith y bydd deddfwriaeth yn cael ei phasio. Mae dal angen cydymffurfio â Deddf Caffael 2023 (PA23) yn y cyfamser. |
| 3.1.13 | Nyrsio Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Cartrefi Gofal Preswyl, a Gwasanaethau Iechyd Rhywiol (Mynediad Agored) | Cydnabod efallai na fydd modd caffael y rhain oherwydd eu natur, fel y darperir ar ei gyfer dan ddeddfwriaeth arall. E.e. Iechyd Rhywiol – gall trigolion fynd i unrhyw glinig, ond rhaid i'r Cyngor dalu'r costau - does gan y Cyngor ddim dewis o ran ble mae'r unigolyn hwnnw neu honno'n mynd. Mae dal angen cydymffurfio â PA23. Gweler y rhesymau ar gyfer 3.2.12 sydd hefyd yn berthnasol. |
| 3.1.14 | Unrhyw beth sydd wedi'i eithrio'n benodol gan ddeddfwriaeth | Dim ond yn cynnwys popeth arall yn y dyfodol. |
| 5 | Adran 5 i gyd – Gweithgaredd Cyn-Gaffael | Nid yw'n newydd i gyd, ond nodir yn glir mewn un lle, yr holl faterion y mae'n rhaid eu hystyried cyn dechrau caffael o unrhyw werth, yn hytrach na'u bod yma a thraw mewn gwahanol Reolau. |

| **Rhif Rheol Newydd** | **Yr hyn y mae'n ei ddweud** | **Pam ei bod wedi cael ei hychwanegu** |
|---|---|---|
| 5.3 | Cyswllt cychwynnol â'r farchnad, Ymchwil i'r Farchnad ac Ymgynghori | Ei gwneud yn glir bod cyswllt cychwynnol â'r farchnad cyn dechrau gweithgaredd caffael yn cael ei ganiatáu a'i annog. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y gwerth gorau yn cael ei sicrhau drwy drafod gyda'r farchnad. |
| 5.4 | Manylebau, Safonau a Meini Prawf Dyfarnu | Nodir gofynion clir bod angen paratoi'r rhain ar gyfer pob gweithgaredd caffael, unwaith eto, er mwyn sicrhau y ceir gwerth am arian. |
| 5.5.3 | Gofynion Tabl Gweithgareddau Caffael<br><br>Caffaeliadau £30k hyd at y Trothwy. Erbyn hyn mae gan wasanaethau ddewis o gystadleuaeth gaeedig neu wedi'i hysbysebu'n agored | Un tabl sy'n nodi trothwyon perthnasol a'r broses ofynnol leiaf y dylid ei ddilyn. Mae'n haws ei ddeall.<br><br>Mae'r Ddeddf (a'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus cyfredol 2015) yn caniatáu cystadlaethau caeedig islaw'r Trothwy.<br><br>Fodd bynnag, maen nhw'n mynnu bod rhaid i chi hysbysebu'n genedlaethol yn gyntaf pan fyddwch chi'n hysbysebu'n lleol.<br><br>Yn ôl y RhGC presennol, rhaid hysbysebu unrhyw weithgaredd caffael dros £30k yn agored.<br><br>Dylai'r Cyngor fanteisio ar y ddeddfwriaeth, a chaniatáu cystadlaethau caeedig i gyflenwyr lleol yn y dull haenu a nodir yn y RhGC drafft. Mae hyn hefyd yn unol â fersiwn drafft y Cynllun Strategol Caffael newydd. Mae cystadleuaeth gaeedig yn golygu bod y Gwasanaeth yn nodi nifer o gynigwyr y credant sy'n gallu darparu'r gwasanaethau, ac mai dim ond nhw a wahoddir. |
| 5.6 | Caffael Gwasanaethau Gofal Penodol | Nid yw'r mathau hyn o gontractau o reidrwydd yn cyd-fynd â'r broses draddodiadol a mwy sefydlog ar gyfer caffael, o ystyried natur y contractau hyn, a'r angen i gynnwys dewis y defnyddiwr / rhiant / gofalwr.<br><br>Mae nifer o Gynghorau Lloegr wedi cyflwyno rhywbeth yn y RhGC yn gysylltiedig â'r gwariant hwn / pecynnau gofal cyn Dewis Darparwyr. Mae'r drefn Dewis Darparwyr, i bob pwrpas, yn cymryd lle hyn ar gyfer Cynghorau Lloegr, ac yn caniatáu dyfarniadau uniongyrchol ar gyfer rhai gwasanaethau iechyd. |

| **Rhif Rheol Newydd** | **Yr hyn y mae'n ei ddweud** | **Pam ei bod wedi cael ei hychwanegu** |
|---|---|---|
| | | Trwy Ddeddf Caffael Gwasanaethau Iechyd (Cymru) 2024, mae STAR ar ddeall y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio efelychu hyn yng Nghymru yn 2025.<br><br>Mae'r Rheol yn nodi'r disgwyliad y dylid creu a defnyddio llwybrau caffael traddodiadol lle bynnag y bo modd. Fodd bynnag, lle mae set gyfyngedig o amodau / elfennau'n berthnasol, ac na all llwybrau traddodiadol ddiwallu'r anghenion, caniateir dyfarniad uniongyrchol. Mae angen cymeradwyaeth gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac nid oes angen hepgoriad.<br><br>Os na fodlonir yr amodau / elfennau cyfyngedig, bydd angen hepgoriad.<br><br>Mae'n dal angen cydymffurfio â PA23 yn y cyfamser ac, felly, mae'n berthnasol i waith islaw'r trothwy am y tro, a bydd angen cyhoeddi hysbysiadau amrywiol gan ddefnyddio'r broses Hepgor ar gyfer unrhyw beth uwchlaw'r Trothwy. |
| 5.7 | Gwrthdaro Buddiannau, Atal Llwgrwobrwyo a Llygredd | Mae'n cryfhau'r ddarpariaeth bresennol, ac yn ystyried yr angen am Asesiadau a Chofrestrau Gwrthdaro Buddiannau o dan PA23. |
| 6.3.5 | Caffaeliadau £30k hyd at y Trothwy. Cyfeiriwch at y llawlyfr ar gyfer "cyfyngiadau a ganiateir o ran cymhwysedd cynigwyr". | Y bwriad yn Lloegr, trwy is-Reoliad i'r PA23, yw caniatáu hysbyseb agored i rai islaw'r Trothwy sydd wedi'i chyfyngu i Sir. Nid yw'n ddeddfwriaeth eto.<br><br>Mae STAR yn deall bod Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio adlewyrchu hyn mewn darn arall o ddeddfwriaeth Cymru cyn dechrau'r Ddeddf.<br><br>Ceisiwyd diogelu'r RhGC tuag at y dyfodol, felly, gellir diweddaru'r Llawlyfr Caffael heb newid y RhGC. |
| 7.2.1 | Angen cymeradwyaeth gan y Rheolwr Caffael pan na dderbyniwyd 3 dyfynbris | Sicrhau bod proses briodol wedi'i dilyn, gyda chyflenwyr cymwys a medrus wedi cael gwahoddiad. |
| 8 | Terfynu'r broses Gaffael | Ychwanegwyd i adlewyrchu deddfwriaeth newydd. |

| Rhif Rheol Newydd | Yr hyn y mae'n ei ddweud | Pam ei bod wedi cael ei hychwanegu |
|---|---|---|
| 9 | Contractau sy'n bodoli eisoes | Gwnaed darpariaethau cadarnach a chliriach ynghylch defnyddio Fframweithiau a phethau tebyg. |
| 10 | Darpariaethau Contract a Manylion Ffurfiol | Gwnaed y rhain yn gliriach ac yn haws eu deall trwy gydgrynhoi mewn un lle. |
| 11 | Rheoli Contract (hysbysiadau) | Ychwanegwyd darpariaeth i sicrhau y cyfeirir at y Llawlyfr ynghylch hysbysiadau gorfodol. |
| 12.1 | Rhestr estynedig a chlir o enghreifftiau o amgylchiadau a ganiateir.<br><br>Mae hefyd yn egluro bod y rhai yn y Ddeddf hefyd yn berthnasol ar gyfer Contractau Trothwy, yn ogystal â'r cyfiawnhad yn y Rheolau. | Mae'r cyfiawnhad sy'n weddill ar hyn o bryd (ar ôl y rhai sydd wedi'u tynnu allan) yn debyg ar y cyfan i'r Rheolau newydd, fodd bynnag, mae'r Rheolau newydd yn gliriach ynghylch yr hyn a olygir (e.e. mater brys).<br><br>Mae'r rhestr newydd hon yn rhoi syniad cliriach i Swyddogion ynghylch yr hyn a ystyrir yn briodol, ynghyd â chafeatau a chyfyngiadau priodol (e.e. dim dewis rhesymol arall), a bydd angen cyfiawnhad a thystiolaeth yn eu herbyn.<br><br>Mae hyn yn lleihau unrhyw bosibilrwydd o ryddid heb gyfyngiadau sydd yn y rheolau presennol ar geisio hepgor y rheolau, a bod angen camau priodol er mwyn dangos tystiolaeth nad oes dewis rhesymol arall.<br><br>Mae yna hefyd ambell gyfiawnhad ychwanegol a fydd yn ei golygu bod modd caffael yn fwy effeithlon yn y dyfodol (e.e. cyd-derfynu contractau yn sgil adolygu Gwasanaeth). |
| 12.2 | Rhestr estynedig sy'n sail i geisio addasu'r contract.<br><br>Gwahaniaethu rhwng cyfiawnhad islaw'r Trothwy ac uwch na'r Trothwy | Mae cyfyngiadau yn y rheolau presennol ynghylch pryd mae ceisio Addasu contract yn briodol ai peidio.<br><br>Mae'n ceisio mynd i'r afael â hyn trwy osod cyfyngiadau priodol ar Addasiadau fel bod gwaith Gwasanaeth yn cyd-fynd â'r gofynion.<br><br>Er bod cyfyngiadau o'r Rheolau presennol yn cael eu hawgrymu, dylai'r Cyngor fanteisio ar yr hyblygrwydd sydd ganddo gyda chontractau islaw'r Trothwy. Mae'r seiliau dros gyfiawnhad yn debyg i rai'r PA23, ond mae'r cyfyngiadau ar ddefnydd yn cynyddu (o 50% o'r gwerth presennol, i 100% o'r gwerth gwreiddiol). |

| Rhif Rheol Newydd | Yr hyn y mae'n ei ddweud | Pam ei bod wedi cael ei hychwanegu |
|---|---|---|
| 12.3 | Y drefn ar gyfer gwneud cais am Hepgor neu Addasu | Mae'r Rheolau presennol ychydig yn amwys ynghylch yr hyn sydd ei angen i ofyn am Hepgoriad / Addasiad, a phwy sy'n cymeradwyo. Mae'n ceisio egluro hyn, yn ogystal â'r angen am hysbysiadau. |
| 12.4 | Mater Brys | Gan nad yw'r Rheolau presennol yn nodi'r drefn gyffredinol yn glir, mae amwysedd os na allwch fodloni'r gofynion cymeradwyo. Mae'n ceisio mynd i'r afael â hyn. |
| 12.5 | Diffyg cydymffurfio â Rheolau | Nid oes gan y Rheolau presennol ddarpariaeth ar gyfer beth i'w wneud os nad ydych wedi dilyn y Rheolau. Mae'n ceisio mynd i'r afael â hyn. |

**Newidiadau eraill i'w Nodi**

| Rhif Rheolau Cyfredol | Yr hyn y mae'n ei ddweud | Sylwadau |
|---|---|---|
| 4.9.1 | Cyflwyniad ac Angen am RhGC | Cadwyd y rhain i raddau helaeth o dan Reol newydd 1, 2 a 4, gyda newidiadau i'r strwythur a'r geiriad. Mae'r pwyslais cyffredinol wedi cael ei gadw.<br><br>Mae rhai elfennau (diffiniadau) wedi cael eu symud i'r Atodiad 1 newydd. |
| 4.9.2 | Egwyddorion Cyffredinol | Cadwyd y rhain i raddau helaeth o dan Reol newydd 1, 2 a 4, gyda newidiadau i'r strwythur a'r geiriad. Mae'r pwyslais cyffredinol wedi cael ei gadw. |
| 4.9.1.5 | Trefniadau nad yw'r RhGC yn berthnasol iddynt | Mae'r rhain wedi'u symud i Reol 3 newydd, mae'r rhain wedi'u cynnwys ond ychwanegwyd ambell un newydd i gwrdd â gofynion newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol, ac i ganiatáu i fwy o bethau beidio â bod yn rhan o'r gofynion. |
| 4.9.2.2 | Gweithdrefnau ar y Cyd | Cadwyd yr ystyr gyffredinol, ond mae geiriad wedi'i newid a'i gynnwys yn Rheol 1 newydd. |
| 4.9.3 | Eithriadau | Mae'r rhain wedi'u symud tuag at y diwedd, o dan Reol 12.1 newydd i helpu i egluro mai dewis olaf yw'r rhain. Mae'r rhain wedi'u hail-eirio, a rhai wedi'u tynnu allan, manylion yn y tabl cyntaf. |
| 4.9.4.1 | Cyn-Caffael | Fe'i symudwyd i reol 5 newydd ac ehangwyd ar hyn. |

| Rhif Rheolau Cyfredol | Yr hyn y mae'n ei ddweud | Sylwadau |
|---|---|---|
| 4.9.4.2, 4.9.4.3, 4.9.4.5 - 8 | Rheolau Cystadleuaeth ac e-dendro, Ymgynghoriad y Gwasanaeth Caffael, Gofynion Llwybrau Cystadleuaeth | Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Rheol newydd 5, 6.1, 6.2 a 6.3.<br><br>Mae popeth ar ôl cyn-caffael sy'n angenrheidiol ar gyfer pob un o'r llwybrau caffael wedi'i nodi ym mhob rheol.<br><br>Nid oes angen edrych drwy'r Cyfansoddiad i ddeall yn llawn yr hyn sy'n ofynnol. Nodir pob cam yn y rheol berthnasol yn y drefn berthnasol. Ei bwrpas yw lleihau unrhyw ddryswch ac amwysedd. |
| 4.9.5 | Caffaeliadau Islaw £10k | Fe'i symudwyd i Reolau 5 a 6.1 newydd. |
| 4.9.7 | Caffaeliadau £30k hyd at y Trothwy | Fe'i symudwyd i Reol 5, 6.3 a 7 newydd, ac mae'n cynnwys Caffael Trothwy. |
| 4.9.8 | Manyleb, Gwerthuso a Derbyn | Fe'i symudwyd i Reol 5 a 7 newydd, ac mae'n cynnwys Caffael Trothwy. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chyfyngu i'r angen i wybod, a chedwir y gweddill ar gyfer y Llawlyfr Caffael. |
| 4.9.9 | Telerau i'w cynnwys mewn cystadlaethau | Mae'r rhain wedi'u symud i Reolau 5, 6.2 a 6.3 newydd a byddant yn cael eu cynnwys yn y Llawlyfr Caffael. |
| 4.9.9.3 | Selio | Fe'i symudwyd i Reol 10 newydd.<br><br>Mae hefyd wedi cynyddu o £50k hyd at y Trothwy, ac mae'n cynnwys yr holl gontractau Gwaith a gofynion gorfodol eraill.<br><br>Mae gan Wasanaethau Gofal Penodol drothwy o £500k i gydnabod natur y contractau hyn.<br><br>Dangosodd meincnodi fod lefel trothwy Ynys Môn gryn dipyn yn is na chymdogion (rhwng £100k a £350k yng Nghynghorau Gogledd Cymru). Mae'r trothwy yn ymddangos yn briodol oherwydd y risgiau cynhenid ynddo. |
| 4.9.10 | Rheoli ar ôl Contract | Fe'i symudwyd i Reol 11 newydd. |
| 4.9.10.3 a 4 | Newidiadau i'r Contract | Fe'i symudwyd i Reol 12.2 newydd, gyda darpariaethau ychwanegol wedi'u cynnwys i wneud hyn yn fwy cadarn. |
| 4.9.11 | Amrywiadau | Fe'i symudwyd i Reol 12.2 newydd. |

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Y Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **10 Rhagfyr 2024** |
| Pwnc / Testun: | **Rhenti a Thaliadau Gwasanaethau Tai 2025/26** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Y Cynghorydd Robin Williams** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Ned Michael, Pennaeth Gwasanaethau Tai** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | **Darren Gerrard, Rheolwr Busnes Adran Tai**<br>**01248 752265**<br>**dkghp@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru am gynnydd o hyd at 2.7% mewn lefelau rhent cymdeithasol gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cynnydd rhent a thaliadau gwasanaeth ar gyfer 2025/26 fel y nodir isod :-

**A1** i gymeradwyo cynydd o 2.7% ar draws yr holl undau rhent cyffredinol sy'n unol â pholisi rhent Llywodraeth Cymru wrth gasglu dros 51 wythnos.

**A2** i gymeradwyo cynnydd o £1.00 yr wythnos ar gyfer rhenti pob garej.

**A3** i gymeradwyo'r taliadau gwasanaeth fel y nodwyd yn adran 6.3 o'r adroddiad i'w codi ar bob tenant sy'n derbyn y gwasanaethau perthnasol.

**A4** i gymeradwyo gweinyddu'r 'Cynllun Cymorth Rhent', cynllun lleol i gefnogi tenantiaid sydd yn hunan dalu eu rhent.

**A5** bod llythyr yn cael ei ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn datgan nad yw'r cynnydd mewn rhenti yn ddigonol i alluogi'r CRT i ariannu'r costau uwch o ganlyniad i gyfraniadau ychwanegol gan gyflogwyr YG yn dilyn cyhoeddiad y Gyllideb, safonau SATC2023 a chwyddiant costau adeiladu.

## 1.0 Cefndir

**1.1** Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 mae'n rhaid i'r Cyngor gadw Cyfrif Refeniw Tai (CRT), sydd wedi'i glustnodi'n unig ar gyfer trafodion sy'n ymwneud yn benodol â Thai Awdurdod Lleol.

**1.2** Ar 13 Tachwedd 2024 cadarnhaodd Llywodraeth Cymru mewn llythyr ei bod wedi cytuno ar y Polisi ar gyfer Rhenti Tai Cymdeithasol ar gyfer 2025/26. Mae'n cynghori y dylai pob Awdurdod Lleol ddefnyddio fformiwla mynegai prisiau defnyddwyr (CPI) + 1% gyda gwerth CPI ym mis Medi 2024 yn 1.7%.

**1.3** Mae'r Gweinidog wedi pennu’r codiad rhent blynyddol uchaf ar draws y holl stoc rhent cyffredinol fydd **hyd at** 2.7%.

**1.4** Er mai 2.7% fydd y cynnydd mwyaf a ganiateir, disgwylir bod rhaid i benderfyniad yr Awdurdod ar y cynnydd rhent ystyried anghenion landlordiaid a fforddiadwyedd rhenti i denantiaid yn gyfartal.

**1.5** Cytunwyd ar y cynnydd arfaethedig gan Lywodraeth Cymru cyn cyhoeddiad diweddar y Gyllideb y byddai cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr yn cynyddu 1.2% i 15% a gostwng y trothwy o £9,100 i £5,000. Amcangyfrifir y bydd y newid hwn yn ychwanegu tua £100,000 at gostau staff y CRT.

**1.6** Uchelgais Llywodraethau Cymru yw bod pob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n cynnwys yr 11 awdurdod lleol sydd wedi cadw eu stoc tai yn ymrwymo i gyrraedd safonau SATC 2023 a cafodd i lansio yn ddiweddar erbyn 2033. Bydd angen buddsoddiad sylweddol gan y HRA i ariannu dros yr 8 mlynedd nesaf i wireddu'r safonau ychwanegol hyn a fydd yn arwain at ostyngiad mewn refeniw dros ben ar gael o'r CRT i ariannu buddsoddiad cyfalaf sy'n ofynnol i fodloni'r safonau newydd.

**1.7** Byddwn yn parhau i dderbyn y Lwfans Atgyweirio Mawr o tua £2.7m gan Lywodraeth Cymru nad yw wedi cynyddu i fodloni'r safonau newydd ychwanegol.

**1.8** Mae disgwyl hefyd gan Lywodraeth Cymru fod pob RSL yng Nghymru yn parhau i gynyddu nifer y tai cymdeithasol fforddiadwy newydd sy'n cael eu datblygu i gyflawni eu huchelgais o 20,000 o gartrefi newydd. Dros y 3 blynedd diwethaf mae'r Gwasanaeth Tai wedi cwblhau datblygiad 76 o gartrefi newydd a phrynu 51 o hen dai Cyngor. Yn ogystal â hyn, mae gennym raglen ddatblygu o 49 o gartrefi newydd ar y safle.

**1.9** Hyderwn bod yr uchod yn cyfiawnhau'r achos modd i fod yn uchafu ein incwm rhent er mwyn cwrdd â dyheadau Llywodraethau Cymru sydd yn

cynnwys yr angen i sicrhau gorffeniad lloriau addas yn ein cartrefi sydd am fod yn cynyddu ein costau wrth ail osod cartrefi.

**1.10** Fel rhan o safon rhent Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i bob Landlord Cymdeithasol wneud asesiad blynyddol o fforddiadwyedd i denantiaid, effeithlonrwydd costau a dangos bod eu cartrefi a'u gwasanaethau yn cynrychioli gwerth am arian.

**1.11** Ymrwymiadau a Mentrau Cytundeb Rhent

Fel rhan o'r broses ystyried ar gyfer y setliad hwn, mae nifer o ymrwymiadau a mentrau newydd wedi eu pennu gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys :-

- Ni fydd unrhyw droi allan oherwydd caledi ariannol am gyfnod y setliad, pan fo tenantiaid yn ymgysylltu â landlordiaid.
- Darparu cymorth wedi'i dargedu i'r rhai sy'n profi caledi ariannol i gael y cymorth sydd ar gael.
- Sicrhau'r defnydd gorau o'r holl stoc tai cymdeithasol addas, gan ganolbwyntio ar helpu'r rhai mewn llety dros dro o'r ansawdd gwaethaf i symud i gartrefi mwy hirdymor sy'n diwallu eu hanghenion
- Parhau i gyfathrebu er mwyn annog tenantiaid i siarad â'u landlord os ydynt yn cael trafferthion ariannol, ac i gael mynediad at y cymorth sydd ar gael
- Adeiladu ar drafodaethau sy'n bodoli eisoes â thenantiaid mewn penderfyniadau gosod rhent, gan gynnwys egluro sut mae incwm o rent yn cael ei fuddsoddi a'i wario.
- Ymrwymiad parhaus i fuddsoddi mewn cartrefi presennol er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn gynnes, ac yn fforddiadwy i fyw ynddynt.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda thenantiaid, Llywodraeth Cymru, arianwyr a phartneriaid eraill i ddatblygu dull gweithredu cyson o ran asesu fforddiadwyedd ar draws y sector tai cymdeithasol yng Nghymru.
- Parhau i gryfhau dulliau gweithredu a gynlluniwyd i sicrhau eich bod yn lleihau achosion o droi allan a gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i gyflawni ar yr ymrwymiad i beidio troi allan i ddigartrefedd.
- Cynnal arolwg boddhad tenantiaid safonol a darparu'r data ar gyfer eu cyhoeddi ar wefan ganolog i gynorthwyo tenantiaid i graffu ar berfformiad landlordiaid, a'u cymharu. Y dyddiad cyflwyno nesaf, yn seiliedig ar y cwestiynau craidd a addaswyd, yw 28 Chwefror 2024, er mwyn eu cyhoeddi ym mis Ebrill. (Cyhoeddwyd canllawiau ar wahân.)

**1.12** Rhent Canolraddol - mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd wedi cytuno ar sefyllfa dros dro y gall landlordiaid gynnig tenantiaethau Rhent Canolradd

ar 80% o werth y farchnad cyn belled â'u bod yn parhau i ystyried a rhoi sylw dyledus i gyfraddau Lwfans Tai Lleol. Ym mhob achos, rhaid i landlordiaid fod yn fodlon bod y tenantiaethau hyn yn dal yn fforddiadwy i denantiaid.

## 2.0 Fforddiadwyedd

**2.1** Er mwyn asesu'r fforddiadwyedd rhent cyfartalog presennol ar gyfer tenantiaid Cyngor Sir Ynys Môn, defnyddiwyd methodoleg Rhentu Byw Sefydliad Joseph Rowntree (JRF).

**2.2** Mae'r model Rhent Byw JRF yn sefydlu cysylltiad rhwng rhenti a gallu pobl ar incwm isel i'w fforddio, gan ddefnyddio'r data enillion lleol cwarter is o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion.

**2.3** Mae'r model yn nodi y dylai Rhent Byw fod yn fforddiadwy i aelwyd gyda rhywun mewn cyflogaeth llawn amser, gan weithio nifer yr oriau a weithiwyd bob wythnos ar gyfartaledd ac enillion o gwmpas yr isafswm cyflog. Mae'r model felly'n defnyddio'r ffigurau enillion cenedlaethol chwarter isaf.

**2.4** Mae egwyddor model JRF yn nodi bod 28% o'r enillion wythnosol net hyn (y pedwarawd isaf) felly'n £96.45 yr wythnos, sy'n golygu na ddylai person ar rent cymdeithasol fod yn talu mwy na £96.45 yr wythnos ar rent i berson sengl mewn fflat un ystafell wely.

**2.5** Mae angen pwysau i adlewyrchu cyfansoddiad gwahanol ein mathau o eiddo a'n meintiau :-

| Math o eiddo | Ffactor | Nifer o stafelloedd gwely | Ffactor |
|---|---|---|---|
| Bedsit | -0.10 | Bedsit | 0.00 |
| Fflat | 0.00 | 1 gwely | 0.00 |
| Bungalo | 0.10 | 2 gwely | 0.20 |
| Tŷ | 0.10 | 3 gwely | 0.30 |
| | | 4 gwely | 0.40 |
| | | 5+ gwely | 0.50 |

**2.6** Mae defnyddio methodoleg JRF yn dangos bod y rhent cyfartalog ar gyfer pob math o eiddo a maint yn cael ei ystyried yn fforddiadwy ar hyn o bryd i denantiaid Môn ac felly mae'n cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru.

**2.7** Os cyfrifwn y fforddiadwyedd yn seiliedig ar y gyfradd chwyddiant o 2.7% byddai pob categori yn parhau i gael ei ystyried yn fforddiadwy.

## 3.0 Effaith Cynnydd Rhent ar ein Tenantiaid

**3.1** Bydd y cynnydd mewn rhent blynyddol yn cael ei gyfrifo gan 'Rent Cyfredol + 2.7%' ar gyfer pob tenant.

**3.2** Ar hyn o bryd ni fydd 2931 o denantiaid y Cyngor (74.5%) yn wynebu caledi ychwanegol o ganlyniad i'r cynnydd rhent arfaethedig a thaliadau gwasanaeth, gan eu bod yn derbyn Budd-dal Tai llawn neu ran ohono neu'n derbyn Credyd Cynhwysol. Bydd yn rhaid i denantiaid nad ydynt yn derbyn budd-dal tai dalu'r rhent a'r taliadau gwasanaeth, oni bai eu bod yn gymwys i gael budd-dal wrth gwrs, yn dilyn y cynnydd.

| Math o eiddo | Nifer o stafelloedd gwely | Ffactor cychwyn | Ffactor addasu | Rhent byw JRF | Rhent wythnosol cyfartalog CSYM | Rhent + 2.7% |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bedsit | Bedsit | 1.00 | 0.9 | £86.81 | £81.60 | £83.80 |
| Fflat | 1 Gwely | 1.00 | 1 | £96.45 | £91.74 | £94.22 |
| Fflat | 2 Gwely | 1.00 | 1.2 | £115.74 | £101.40 | £104.14 |
| Fflat | 3 Gwely | 1.00 | 1.3 | £125.39 | £112.00 | £115.02 |
| Fflat | 4 Gwely | 1.00 | 1.4 | £135.03 | £122.40 | £125.70 |
| Bungalo | 1 Gwely | 1.00 | 1.1 | £106.10 | £101.39 | £104.13 |
| Bungalo | 2 Gwely | 1.00 | 1.3 | £125.39 | £111.05 | £114.05 |
| Bungalo | 3 Gwely | 1.00 | 1.4 | £135.03 | £120.99 | £124.26 |
| Bungalo | 4 Gwely | 1.00 | 1.5 | £144.68 | £133.79 | £137.40 |
| Ty | 1 Gwely | 1.00 | 1.1 | £106.10 | £101.57 | £104.31 |
| Ty | 2 Gwely | 1.00 | 1.3 | £125.39 | £112.17 | £115.20 |
| Ty | 3 Gwely | 1.00 | 1.4 | £135.03 | £119.94 | £123.18 |
| Ty | 4 Gwely | 1.00 | 1.5 | £144.68 | £127.89 | £131.34 |
| Ty | 5+ Gwely | 1.00 | 1.6 | £154.32 | £137.25 | £140.96 |

**3.3** Bydd Gweithredu’r cynnydd o 2.7% yn rhoi cynnydd rhwng £2.20 yr wythnos a £3.98 yr wythnos i bob tenant.

1190 codi rhwng £2.20 - £2.79
2670 codi rhwng £2.80 - £3.39
64 codi rhwng £3.40 - £3.98

**3.4** Mae tua 993 o denantiaid ddim yn derbyn unrhyw gymorth tuag at eu rhent ac felly, yn talu'r rhent yn llawn. Bydd gweithredu’r cynnydd hyn yn golygu :-

247 yn codi rhwng £2.20 - £2.79
732 codi rhwng £2.80 - £3.39
14 codi rhwng £3.40 - £3.96

**3.5** **Rhent Canolradd**

Ar hyn o bryd mae gennym 37 eiddo o dan y gyfradd rhent 'Canolradd' ac er mwyn bod yn deg a chyson, penderfynir cymhwyso'r un cynnydd o 2.7% ar gyfer y tenantiaid hyn. Bydd gweithredu'r cynnydd hyn yn golygu:-

6 yn codi rhwng £2.20 - £2.69
3 codi rhwng £2.80 - £3.39
28 codi rhwng £3.40 - £4.07

**3.6** Pe byddem yn gweithredu cynnydd rhent o 2.7% ac yn casglu dros 51 wythnos i ystyried yr wythnos ddi-rent dros gyfnod y Nadolig, byddwn yn cynhyrchu incwm rhent blynyddol o oddeut £23.1m sydd oddeutu £605 mil o incwm rhent blynyddol ychwanegol.

**3.7** Oherwydd effaith Diwygio Budd-dal Lles y Llywodraeth ac effaith yr argyfwng Costau Byw mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg wedi ei chynyddu i £347,956 (1.5%) ar gyfer 2025/26 wrth i ni ddisgwyl y bydd ôl-ddyledion yn cynyddu pan fydd yn rhaid i denantiaid fodloni cyfran uwch o rent eu hunain.

**4.0 Cynllun Busnes CRT 30 mlynedd**

**4.1** Yn y cynllun 30 mlynedd a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024, dangosodd y Cyngor ein bod yn uchelgeisiol drwy ddarparu mwy o dai fforddiadwy ynghyd â thai gofal ychwanegol. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn gwneud y mwyaf o'r incwm rhent er mwyn gallu datblygu a chynyddu'r stoc.

**5.0** **Cymorth Ariannol i Denantiaid**

**5.1** Mae gan y Gwasanaethau Tai Dim Cynhwysiant Ariannol sydd yn cynnwys tri Swyddog Cynhwysiant Ariannol sydd ar gael i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i denantiaid sydd yn hunan dalu a fyddai'n wynebu unrhyw galedi ariannol o ganlyniad i weithredu'r cynnydd.

**5.2** Bydd y Cyngor hefyd yn neilltuo cronfa 'Cynllun Cymorth Rhent' sy'n gynllun lleol i denantiaid a allai fod mewn trafferthion ariannol o ganlyniad i'r cynnydd.

**5.3** Bydd cartrefi sy'n cael eu hystyried i fod angen cymorth gyda'u rhent yn gallu gwneud cais i'r Cynllun Cymorth Rhent neu'n cael eu cyfeirio at y cynllun.

**6.0 Taliadau Gwasanaeth**

**6.1** Mae'r taliadau am wasanaethau y mae'r Awdurdod yn eu darparu yn ystod 2025/26 yn seiliedig ar gostau gwirioneddol a gafwyd yn ystod 2023/24 ac

fe'u rhennir yn gyfartal ymhlith tenantiaid a lesddeiliaid. Dylid nodi bod mwyafrif y costau hyn yn gymwys am fudd-dal tai neu Gredyd Cynhwysol.

**6.2** Mae rhan fwyaf o’r costau ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn wedi cynyddu o gymharu â ffigyrau'r llynedd. Bydd oddeutu £243 mil o incwm yn cael ei gynhyrchu ganddynt.

**6.3** Y taliadau wythnosol arfaethedig ar gyfer 2025/2026, yn seiliedig ar 51 wythnos, yw:

Cynnal lifftiau - £0.23 - £2.89
Glanhau ardaloedd cymunedol - £4.57 – £12.72
Larymau Tân ac Offer Tân - £2.10
Systemau Mynediad - £0.25
Taliadau Carthffosiaeth - £4.47
Gwresogi a Goleuo ardaloedd cymunedol - £1.687
Erialau Teledu mewn ardaloedd cymunedol - £0.20
Cynnal a Chadw Tir (Eiddo Domestig) - £5.75 (tâl 6 mis)
Cynnal a Chadw Tir (Tai Gwarchod) - £0.15 - £3.23)
Costau rheoli ar 15% o bob tâl gwasanaeth.

**6.4** Ar hyn o bryd mae 40 o lesddeiliaid y codir arnynt am wasanaethau y maent yn eu derbyn gan yr Awdurdod. Bydd hyn yn cynhyrchu incwm blynyddol ychwanegol o oddeutu £10 mil**.**

**7.0 Garejis**

**7.1** Nid yw Polisi Rhent Llywodraeth Cymru yn rhoi unrhyw arweiniad ar sut i gynyddu rhent garej. Mae'r Cyngor felly yn cynnig gynyddu rhent y garej o 10% a fydd yn cynyddu'r rhent o £1.00. Bydd hyn yn cynyddu'r rhent o £10.02 yr wythnos i £11.02 a bydd yn cynhyrchu incwm o £290 mil ar ôl tynnu garejys gwag. Ar 4ydd Tachwedd 2024 mae yna 517 o garejys wedi’i feddiannu a 151 o garejys gwag.

Byddwn yn ceisio defnyddio'r incwm ychwanegol i greu cynllun strategol ar gyfer y garejys.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Codi'r rhent o swm is na'r uchafswm a ganiateir gan Bolisi Rhentu Llywodraeth Cymru, ond o ystyried y pwysau cyllidebol ychwanegol sy'n wynebu'r CRT, ni fyddai codiad yn is na'r 2.7% yn ddigonol i dalu costau cynyddol a byddai'n gwanhau cynaliadwyedd ariannol cyffredinol yr HRA.

| |
|---|
| |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae gan Bolisi Rhent newydd Llywodraeth Cymru oblygiadau ar gyfer Cynllun Busnes y CRT. |

| Ch – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol, yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, roi'r Polisi Rhent ar waith. Byddai gwrthod y polisi hwn yn y pen draw yn golygu colli incwm i'r Awdurdod ac yn anochel yn effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir. Byddai hyn hefyd yn tanseilio Cynllun Busnes y CRT ac o bosib yn ein hagor i ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru pe na bai'r polisi'n cael ei fabwysiadu. |

| D – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| Dd – Asesu’r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Trwy fuddsoddiad parhaus yn ein stoc sy'n golygu bod cartrefi'n cyrraedd safonau SATC yn barhaus. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol? Os felly, sut? | Ddim yn berthnasol |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Mae Ynys Môn yn gweithio gyda'r 10 awdurdod cadw stoc arall a CLlLC i ddylanwadu ar bolisi rhent Llywodraeth Cymru |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai’r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Cynhaliwyd arolwg ar-lein i ymgysylltu â thenantiaid a derbyn eu barn ar fforddiadwyedd rhent a gosod rhent. Mae tenantiaid yn cael gwybod yn flynyddol am daliadau rhent a gwasanaeth yn cynyddu cymeradwyaeth ôl-ddemocrataidd ym mis Rhagfyr. Rhoddir 2 fis o rybudd i denantiaid am y cynnydd hwn trwy lythyrau. |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC) wedi'i greu a'i ddiweddaru.<br><br>Mae cymhwyso'r cynnydd mewn rhent i'r holl denantiaid yn golygu y byddwn yn dosrannu'r cynnydd yn deg ac yn cyfyngu ar y cynnydd unigol fesul tenant. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Gynghorau godi rhenti yn flynyddol ac mae'n darparu fformiwla briodol at y pwrpas hyn.<br><br>Mae rhwymedigaeth ar gynghorau i gynnal safon uchel o lety ar gyfer eu tenantiaid, ac felly maent yn dibynnu ar y refeniw ychwanegol hwn i wrthsefyll effeithiau chwyddiant.<br><br>Ni fydd y cynnydd yn effeithio ar y rhan fwyaf o denantiaid oherwydd eu bod yn gymwys i gael Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Dim – nid yw'r codiad rhent yn uniongyrchol gysylltiedig â'r Iaith Gymraeg o ystyried y bydd y cynnydd yn y rhent a'r taliadau gwasanaeth yn effeithio ar bob tenant. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Cyflwynwyd yr adroddiad drafft i'r Tîm Arweinyddiaeth ar 19 Tachwedd 2024 ac ystyriwyd sylwadau a wnaed yn y cyfarfod hwnnw wrth ddrafftio'r adroddiad terfynol. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Gwnaed sylwadau ar yr adroddiad drafft a chafodd rhain eu hymgorffori yn y drafft terfynol. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Yn bresennol yng nghyfarfod y Tîm Arweinyddiaeth ar 19 Tachwedd 2024 |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | Yn berthnasol i'r holl Aelodau |

| F - Atodiadau: |
|---|
| |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| Llythyr Hysbysu Llywodraeth Cymru 2025/2026<br>Polisi Cynllun Cymorth Rhent<br>Asesiad AEC |

Tai ac Adfywio
Housing and Regeneration

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadeiryddion Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
Cyfarwyddwyr Cyllid Awdurdodau Tai Lleol
Cyfarwyddwyr Tai Awdurdodau Tai Lleol
Prif Weithredwyr Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
Cyfarwyddwyr Cyllid, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig

13 Tachwedd 2024

Annwyl Gydweithwyr

**Rhenti a Thaliadau Gwasanaeth Tai Cymdeithasol 2025-2026**

Diben y llythyr hwn yw rhoi gwybod i landlordiaid cymdeithasol beth yw'r cynnydd mwyaf yn y rhent y gellir ei chodi ar denantiaid tai cymdeithasol o 1 Ebrill 2025.

Ysgrifennais atoch ar 17 Mai i'ch hysbysu o'r penderfyniad i ymestyn Safon Renti a Thâl Gwasanaeth presennol Llywodraeth Cymru 2020-2025, wrth i ni ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol i lywio'r broses o ddatblygu polisi rhent cymdeithasol i Gymru yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu y bydd y codiad rhent uchaf i renti cymdeithasol ledled Cymru ar gyfer 2025-26 yn cael ei osod a'i weithredu o dan y fframwaith y darperir ar ei gyfer o dan y safon renti bresennol.

Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai yn ei Datganiad Ysgrifenedig ar 16 Hydref mai 1.7% oedd Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) mis Medi, sy'n golygu'r isod ar gyfer y **flwyddyn ganlynol:**

1. Cyfanswm y codiad rhent blynyddol uchaf ar gyfer 2025-2026 ar draws eich stoc gyfan (ar 31 Mawrth 2024) fydd **hyd at** 2.7%.

2. Er mai 2.7% fydd y cynnydd uchaf a ganiateir, ni ddylid ei ystyried fel y cynnydd diofyn. Rhaid i landlordiaid ystyried fforddiadwyedd rhenti i denantiaid wrth wneud penderfyniadau ynghylch rhent.

3. Gellir gostwng a rhewi rhent unigol a'i chodi hyd at £2 yr wythnos, **cyn belled nad yw cyfanswm yr incwm rhent a gesglir ar draws y stoc gyfan yn cynyddu mwy na 2.7%**. Nod hyn yw galluogi landlordiaid cymdeithasol i ailstrwythuro'u rhenti lle bo hynny'n briodol.

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn ● Tel 03000256560
www.llyw.cymru
www.gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Yn ymarferol, os byddwch yn penderfynu y dylai rhent unigol gynyddu hyd at £2.00 yr wythnos dros y 2.7%, bydd angen rhewi neu ostwng rhenti eraill er mwyn sicrhau nad yw'r cynnydd cyffredinol ar gyfer eich stoc gyfan yn codi dros 2.7%.

4. Dylai landlordiaid cymdeithasol roi gwybod i Lywodraeth Cymru os oes ganddynt bryderon ynghylch effaith y safon renti ar eu cynllun busnes, eu hyfywedd ariannol neu eu gallu i gyflawni eu rhwymedigaethau i denantiaid a benthycwyr.

5. O dan y safon renti, mae disgwyl i landlordiaid cymdeithasol bennu polisi rhent a thâl gwasanaeth sy'n sicrhau bod tai cymdeithasol yn fforddiadwy ac yn parhau'n fforddiadwy i denantiaid heddiw ac yfory. Fel rhan o'r penderfyniad blynyddol i godi/gostwng y rhent, rhaid i landlordiaid cymdeithasol asesu cyfleoedd i arbed costau ar draws y sylfaen costau gweithredu a gwerth am arian yn ogystal â fforddiadwyedd i denantiaid.

## Atal Bandiau Rhenti Targed

Mae'r defnydd o fandiau rhenti targed i lywio'r gwaith o osod rhenti wedi'i atal ers 2021 a bydd hyn yn parhau yn 2024-25. Mae rôl y bandiau rhenti targed yn cael ei adolygu fel rhan o'r gwaith ehangach o ddatblygu polisi rhent cymdeithasol newydd i Gymru.

## Monitro Cydymffurfiaeth

Fel rhan o'i benderfyniad ynghylch codi rhent bob blwyddyn, mae gofyn i bob landlord cymdeithasol gynnal asesiad blynyddol o fforddiadwyedd i denantiaid; cyfleoedd i arbed costau; a sicrhau bod eu cartrefi a'u gwasanaethau'n cynnig gwerth am arian, gyda thystiolaeth i gefnogi hynny.

Dylai pob landlord cymdeithasol gofio bod y safon renti yn caniatáu ar gyfer y cynnydd **mwyaf** y gall ei godi. **Nid yw'n rhent targed**.

Er mwyn ei helpu i roi'r sicrwydd sydd ei angen, bydd gofyn i bob landlord cymdeithasol lenwi ffurflen fonitro hunanardystio a fydd yn cael ei defnyddio i fonitro cydymffurfiaeth â Safon Renti Llywodraeth Cymru. Mae'r ffurflen wedi'i chynnwys yn Atodiad B y Safon Renti, a gaiff ei diweddaru ymhellach a'i chyhoeddi cyn diwedd Tachwedd. Rhaid ei llenwi a'i dychwelyd erbyn diwedd Chwefror 2025.

Nodwch y cynhelir asesiadau manwl o ran cydymffurfio â'r safon renti, ac y gellir gofyn am ragor o wybodaeth/sicrwydd pan fo unrhyw bryderon.

## Ymrwymiadau a Mentrau'r Cytundeb Rhentu

Fel mae landlordiaid wedi ei weld, mae'r pecyn ehangach o gymorth i denantiaid y cytunwyd arno â'r sector fel rhan o'r setliad rhent ehangach yn parhau i fod yn allweddol o ran galluogi pobl i ddod i ben drwy'r argyfwng costau byw parhaus. Bydd y mentrau hyn, a amlinellir yn Rhan 3 – Mentrau y cytunwyd arnynt ar y cyd o'r safon renti yn cael eu cario ymlaen, *heb eu newid* i'r flwyddyn nesaf fel rhan o ymestyn y safon renti bresennol.

Yn y cyfamser, rydym yn parhau i ddatblygu ein rhaglen waith i adolygu gweithrediad y safon renti bresennol. Mae eich cymorth gyda'r gwaith hwn a'ch mewnbwn iddo yn parhau i fod yn rhan annatod o lunio ein hystyriaethau polisi a bydd yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu cynigion polisi ar gyfer polisi rhent cymdeithasol newydd ar gyfer y dyfodol.


Byddwn yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar ein cynigion polisi drafft ar gyfer polisi rhent cymdeithasol newydd i Gymru yn ystod Haf 2025 ond bydd yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gwaith presennol yn dilyn yn ddiweddarach y gaeaf hwn.

Os oes gennych gwestiynau neu bryderon ynghylch pennu rhenti a disgwyliadau Llywodraeth Cymru, mae croeso ichi gysylltu â'r tîm trwy'r e-byst isod.

Awdurdodau Tai Lleol – HousingQualityStandards@gov.wales
Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig – HousingRegulation@gov.wales

Yn gywir

**EMMA WILLIAMS**



**Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio / Director of Housing and Regeneration**
**Llywodraeth Cymru / Welsh Government**

**c.c.** Arweinwyr Cynghorau Lleol
Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol
Cysylltiadau Cynllun Busnes Awdurdodau Tai Lleol Awdurdodau Lleol
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Tai Cymunedol Cymru
Sefydliad Siartredig Tai Cymru
TPAS Cymru
Tai Pawb
UK Finance

# CYNLLUN CYMORTH COSTAU BYW

# CYNLLUN CYMORTH RHENT TAI MÔN 2025/26

| Dyddiad | Fersiwn | Enw |
|---|---|---|
| Chwefror 2023 | 0.1 | Llinos Williams |
| Ebrill 2023 | 0.2 | Darren Gerrard |
| Chwefror 2024 | 0.3 | Katie Jones |
| Rhagfyr 2024 | 0.4 | Darren Gerrard |

## 1. CEFNDIR

1.1 Bob blwyddyn, mae'r Adran Tai yn cynnal dadansoddiad cynllun busnes ar atebolrwydd rhent ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

1.2 Cymeradwyodd IOACC Executive gynnydd o 2.7% mewn atebolrwydd rhent ar gyfer Blwyddyn ariannol 2025/26.

1.3 Mae incwm rhent yn cefnogi gweithrediadau presennol a thwf eiddo'r Cyngor ar Ynys Môn er mwyn mynd i'r afael â'r angen am dai.

1.4 Oherwydd argyfwng costau byw a'r cynnydd parhaus mewn gwariant cartrefi, lliniaru i gefnogi tenantiaid sy'n wynebu caledi ariannol yw datblygu cynllun cymorth rhent.

## 2. PWY ALL WNEUD CAIS NEU GAEL EU CYFEIRIO AM DALIAD?

2.1 Bydd tenantiaid cyngor sy'n cael eu hystyried mewn anhawster ariannol yn gallu gwneud cais i'r cynllun hwn neu gael ei gyfeirio ato.

2.2 Rhaid i geisiadau gael eu gwneud gan y tenant arweiniol (gan gynnwys cyd-denantiaid) a gyda chefnogaeth gan eu Swyddog Rheoli Tai (Arrears)

2.3 Mae gan denantiaid sy'n hawlio cymorth lles ac sy'n ei chael hi'n anodd yn ariannol oherwydd cyfraddau tanfeddiannu (treth ystafell wely), ôl-ddyledion hanesyddol wrth hawlio lles hawl i'r cyllid hwn, fodd bynnag, rhaid i'w Swyddog Rheoli Tai gefnogi i gwblhau Taliad Tai Dewisol (DHP) ac archwilio cyfleoedd cyllido eraill yn gyntaf. Yn ogystal â hyn, bydd pwyslais parhaus ar denantiaid sy'n wynebu cyfraddau meddiannaeth i gwblhau cais am dai ar gyfer trosglwyddo i eiddo llai a llawer mwy fforddiadwy.

2.4 Bydd gofyn i bob cais gwblhau datganiad ariannol personol llawn drwy gyfeirio swyddogion a bydd yn cael ei gyfeirio at y Tîm Cynhwysiant Ariannol os bydd angen. Yn ystod yr asesiad hwn, gall y Swyddogion Cynhwysiant Ariannol asesu llwybrau cymorth ychwanegol i wella lles cartref ac ariannol.

2.5 Bydd ceisiadau neu atgyfeiriadau gan weithwyr cymorth neu weithwyr cymdeithasol ar ran yr unigolyn/unigolion mewn angen yn cael eu derbyn i'w hystyried ond dim ond os yn eu cwblhau gyda gwybodaeth, cydsyniad a chyfranogiad llawn yr unigolyn.

2.6 Bydd unrhyw gais ôl-ddyddio neu swm y dyfarniad yn cael ei ystyried gan y swyddog asesu yn seiliedig ar amgylchiadau'r unigolyn.

## 3. AR GYFER BETH Y GELLIR DEFNYDDIO GRANT O'R CYNLLUN HWN?

3.1 Gellir dyfarnu o'r cynllun hwn os gall tenant(au) ddangos ei fod ef/hi mewn trafferthion ariannol.

3.2 Bydd y cyllid yn cael ei sicrhau yn erbyn y cyfrif rhent ar system gofnodi tenantiaeth y Gwasanaethau Tai.

## 4. TROSOLWG TRAFODION CYNLLUN CYMORTH RHENT

4.1 Cyn dyfarnu, rhaid i'r Swyddog Asesu fod yn fodlon bod yr hawliwr mewn trafferthion ariannol, yn gwbl atebol am rent ac angen y cynllun cymorth rhent.

4.2 Rhaid i'r hawlydd neu'r gweithiwr cymorth sy'n gwneud cais ar ei ran ddarparu gwybodaeth am yr anhawster ariannol y mae'r unigolyn ynddo.

**5. Y BROSES YMGEISIO**

5.1 Bydd gofyn i hawlwyr lenwi ffurflen gais a fydd ar gael mewn fformat digidol a phapur.

5.2 Mae'r ffurflen gais yn cynnwys adran incwm a gwariant. Rhaid i'r ymgeisydd a'r swyddog cyfeirio gwblhau hyn yn llawn cyn y gellir ei asesu. Dylai'r hawlydd gynnwys datganiadau banc neu ddogfennau diweddar gyda'r ffurflen gais sy'n dangos bod yr ymgeisydd mewn caledi ariannol, a bod yr wybodaeth a roddir yn yr adran incwm a gwariant yn gywir. Mae darparu'r dogfennau hyn yn gyfrifoldeb i'r hawlydd neu eu cynrychiolydd. Os gofynnir am ddogfennaeth bellach gan y Swyddog Asesu, rhaid i hyn gael ei gyflenwi a'i dderbyn o fewn pythefnos o ddyddiad y cais sy'n cael ei wneud.

5.3 Fel arfer, bydd yr unigolyn mewn angen yn gwneud ceisiadau i'r cynllun. Fodd bynnag, gellir derbyn hawliadau hefyd gan drydydd partïon fel penodiadau, eiriolwyr a gwasanaethau cymorth sy'n gweithredu ar ran yr hawliwr os ydynt yn agored i niwed.

**6. Y BROSES O WNEUD PENDERFYNIADAU**

6.1 Dylid ystyried pob cais i'r cynllun yn ôl ei rinweddau ei hun. Dylai'r penderfyniadau fod yn deg ac yn gyson.

6.2 Gall un maes anhawster asesu cymhwysedd ar gyfer dyfarniad godi mewn perthynas ag ymgeiswyr sydd â phroblemau camddefnyddio alcohol a/neu sylweddau. Gall yr unigolion dan sylw arwain at ffyrdd o fyw anhrefnus sy'n arwain at wneud penderfyniadau gwael. Gall hyn gynnwys gwariant ar eitemau a fyddai, i'r rhan fwyaf o bobl, yn ymddangos yn afresymol. Fodd bynnag, ni ddylai hyn o reidrwydd atal gwneud gwobr. Y prif feini prawf wrth wneud penderfyniad mewn achosion o'r fath fydd penderfynu a yw'r ymgeisydd yn cael cymorth priodol i ddelio â'i broblemau. Os ydynt yn cael eu cefnogi ar raglen ffurfiol a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth swyddogol, gall fod yn berthnasol ystyried gwneud dyfarniad. Dylai dyfarniadau yn yr amgylchiadau hyn gael eu cefnogi gan dystiolaeth ddogfennol gan y sefydliad sy'n gweithio gyda'r ymgeisydd. At hynny, bydd cyfran incwm y cartref a neilltuir i'r eitemau hyn hefyd yn ffactor perthnasol yn y broses benderfynu.

6.3 Rhaid i'r Swyddog Asesu bob amser ystyried amgylchiadau unigol wrth asesu rhesymoldeb gwariant aelwydydd. Er enghraifft, efallai y bydd angen lefelau uchel o wariant ar rai eitemau ar rai cyflyrau meddygol neu anableddau; Ni ddylai hyn o reidrwydd atal gwneud gwobr. Fodd bynnag, pan fo sefyllfaoedd o'r fath yn berthnasol, efallai y bydd y Swyddog Asesu yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r gwariant a nodwyd.

6.4 Pe bai'r Swyddog Asesu yn penderfynu bod gwariant datganedig ymgeisydd ar eitemau penodol yn afresymol o ormodol, mae ganddo ddisgresiwn i anwybyddu

rhan neu'r cyfan o'r gwariant hwnnw yn yr asesiad ariannol. Wrth benderfynu ar hyn, rhaid rhoi esboniad o'r penderfyniad. Yn yr un modd, os yw'r swyddog o'r farn bod yr ymgeisydd yn amlwg yn byw y tu hwnt i'w fodd mewn modd afresymol, gall ddewis diystyru gwariant o'r fath o'r cyfrifiad. Unwaith eto, mae'n rhaid rhoi esboniad o hyn. Mewn achosion o'r fath, cynigir atgyfeiriad ar gyfer cyngor cyllidebu i gynorthwyo yn y tymor hir. Should the Assessing Officer determine that an applicant's stated

6.5 Mewn rhai achosion, bydd ymgeisydd yn darparu proffiliau gwariant sy'n amlwg yn afrealistig o isel neu nad ydynt yn cynnwys gwariant a fyddai fel arfer yn bresennol mewn unrhyw aelwyd. Mewn achosion o'r fath, dylai'r Swyddog Asesu ystyried cynyddu'r proffil gwariant drwy swm tybiannol priodol er mwyn sicrhau nad yw'r ymgeisydd dan anfantais ormodol yn ystod y broses asesu.

6.6 Fel arfer, bydd taliadau nad ydynt yn ddibynnol yn cael eu trin fel rhan o incwm y cartref. Fodd bynnag, gall y swyddog asesu, mewn rhai amgylchiadau, ddewis diystyru'r tâl nad yw'n ddibynnol fel incwm. Fel rheol gyffredinol, lle mae'r tâl yn ymwneud â pherson annibynnol sy'n cael ei gyflogi, dylid ei drin fel incwm bob amser. Fodd bynnag, pan fo'r tâl yn ymwneud â rhywun sy'n derbyn budd-daliadau lles, gall y swyddog asesu ddewis ei ddiystyru fel incwm os yw'n credu nad oes gobaith rhesymol y bydd yr unigolyn annibynnol yn cyfrannu tuag at gostau aelwyd ac y bydd y methiant i wneud hynny yn arwain at galedi ariannol i'r ymgeisydd DHP.

6.7 Ni fydd gwariant a restrir gan yr hawlydd yn y ffurflen gais sy'n ymwneud â dirwyon llys yn cael ei ystyried; Ni ellir gweld bod y cynllun yn talu rhwymedigaethau o'r fath pan fo gan yr hawlydd gosbau a osodir gan y llysoedd.

6.8 Dylid ystyried ffynonellau cymorth amgen; er enghraifft - a ellid lleddfu'r caledi trwy wneud cais i DHP a DAF (EAP neu IAP). Bydd hyn yn dibynnu ar amgylchiadau unigol yr ymgeisydd a'r rheswm dros eu cais. Er enghraifft; Gallai hawlydd sy'n datgan eu bod mewn argyfwng o wariant rheolaidd ar fwydydd cludfwyd oherwydd nad oes ganddynt ffwrn gael peiriant ffrio aer neu goginio araf er mwyn coginio prydau o gartref a lleihau gwariant bwyd mewn sefydliadau cludfwyd.

6.9 Os bydd Swyddog Asesu yn nodi'r angen am gyngor, arweiniad a chymorth pellach a allai fod o fudd i'r hawlydd yn y tymor hir, gwneir atgyfeiriadau priodol neu gyfeirio at gymorth ond ni fydd cydymffurfio cyn penderfyniad y dyfarniad yn ffactor penderfynu ar y cais o'r cynllun hwn.

## 7. AMSERLENNI

7.1 Mae'r cynllun hwn yn ei le i roi cymorth i denantiaid y Cyngor sy'n dioddef caledi ariannol ac sy'n dioddef. O ganlyniad, mae'n hanfodol bod ceisiadau'n cael eu trin cyn gynted â phosibl. Oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn ei atal neu fod angen gwybodaeth/dogfennaeth ychwanegol gan yr hawlydd i alluogi gwneud penderfyniad, dylid penderfynu ar bob cais o fewn mis i'w dderbyn gyda'r nod o amser prosesu cyflymach lle bo hynny'n bosibl.

## 8. SWM Y TALIADAU

8.1 Bydd y taliadau'n dibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn, ond mae uchafswm o £1,000 ar waith i sicrhau bod cymaint o unigolion â phosibl yn cael eu cefnogi.

**9. APELIO PENDERFYNIAD**

9.1 Os yw'r ymgeisydd yn anghytuno â'r penderfyniad i beidio â gwneud dyfarniad, neu swm y dyfarniad, gallant ofyn i'r penderfyniad gael ei ailystyried. Gellir cyfeirio hyn at Uwch Swyddog am benderfyniad terfynol ar y mater.

10. **SUT Y BYDD TALIAD YN CAEL EI WNEUD**

10.1 Bydd taliad yn cael ei wneud yn erbyn y cyfrif rhent ar y system Rheoli Tai.